Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru



# Cydweithrediad amlsector i wella lles cymunedol: adolygiad o dystiolaeth cyn-bandemig

Anne-Marie Bagnall, Jane South, Rebecca Jones, a Kris Southby

Y Ganolfan Ymchwil Hybu Iechyd, Yr Ysgol Iechyd, Prifysgol Leeds Beckett, Leeds, y Deyrnas Unedig

Gorffenaf 2024

www.wcpp.org.uk/cy/

# Ein Cenhadaeth

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn helpu i wella'r broses o lunio polisïau a gwasanaethau cyhoeddus drwy gefnogi gweinidogion ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus i gyrchu tystiolaeth annibynnol drylwyr am yr hyn sy'n gweithio, a'i chymhwyso. Mae'n gweithio mewn partneriaeth ag ymchwilwyr ac arbenigwyr polisi blaenllaw i gyfuno a defnyddio tystiolaeth sy'n bodoli eisoes a nodi bylchau lle mae angen cynhyrchu gwybodaeth newydd.

Mae'r Ganolfan yn annibynnol ar y llywodraeth ond yn gweithio'n agos gyda llunwyr polisi ac ymarferwyr i ddatblygu syniadau newydd ynghylch sut mae mynd i'r afael â heriau strategol ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol, addysg, tai, yr economi, a chyfrifoldebau datganoledig eraill. Mae'n gwneud y canlynol:

- Cefnogi Gweinidogion Llywodraeth Cymru i nodi, cyrchu a defnyddio tystiolaeth awdurdodol ac arbenigedd annibynnol a all helpu i lywio a gwella polisïau;

- Gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus i gyrchu, llunio, gwerthuso a defnyddio tystiolaeth ynghylch yr hyn sy'n gweithio i fynd i'r afael â'r prif heriau economaidd a chymdeithasol; ac yn

- Tynnu ar ei gwaith gyda Gweinidogion a gwasanaethau cyhoeddus i wella dealltwriaeth o'r modd y gall tystiolaeth lywio a gwella'r broses o lunio polisïau a gwasanaethau cyhoeddus a chyfrannu at ddamcaniaethau ynghylch llunio a chyflwyno polisïau.

Drwy secondiadau, lleoliadau PhD a'i rhaglen Prentisiaethau Ymchwil, mae'r Ganolfan hefyd yn helpu i feithrin gallu ymysg ymchwilwyr i gymryd rhan mewn ymchwil sy'n berthnasol i bolisïau sy'n cael effaith.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'n gwefan yn [www.wcpp.org.uk/cy/](http://www.wcpp.org.uk/cy/)

## Arianwyr craidd

CARDIFF UNIVERSITY PRIFYSGOL CAERDYDD

**Sefydlwyd Prifysgol Caerdydd** ym 1883. Mae Caerdydd yn brifysgol uchelgeisiol ac arloesol sydd wedi'i lleoli mewn prifddinas ffyniannus, ac mae'n benderfynol o feithrin perthnasoedd rhyngwladol cadarn wrth iddi ddangos ei hymrwymiad i Gymru.

UKRI Economic and Social Research Council

**Mae'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC)** yn rhan o Ymchwil ac Arloesi yn y DU, sefydliad newydd sy'n dwyn ynghyd saith cyngor ymchwil y DU, Innovate UK a Research England i fanteisio i'r eithaf ar gyfraniad pob cyngor a chreu'r amgylchedd gorau i ymchwil ac arloesedd ffynnu.

Llywodraeth Cymru Welsh Government

**Llywodraeth Cymru** yw llywodraeth ddatganoledig Cymru, sy'n gyfrifol am feysydd allweddol bywyd cyhoeddus, gan gynnwys iechyd, addysg, llywodraeth leol, a'r amgylchedd.

# Cynnwys


**Cyflwyniad** **4**

Diffiniadau 4

Dulliau 5

Canfyddiadau 5

**Ffactorau sy'n cefnogi cydweithredu amlsector** **7**

1. Ansawdd perthnasoedd presennol 8

2. Sefydlu neu adeiladu ar bartneriaethau a rhwydweithiau presennol 9

3. Camau i hybu a chefnogi perthnasoedd da 10

4. Adeiladu ymddiriedaeth yn fwriadol 11

5. Cefnogaeth, hyfforddiant a meithrin gallu 13

6. Diwylliant, agweddau ac arferion sefydliadol 14

7. Buddsoddi mewn seilwaith a chynllunio ar gyfer cyflawni 15

8. Eglurder a thryloywder ynghylch disgwyliadau a chynlluniau 19

9. Gwneud penderfyniadau ar y cyd 20

10. Dull hirdymor 22

**Modelau cydweithredu sy'n cefnogi gweithredu cymunedol** **23**

Cryfhau cymunedau 24

Rolau gwirfoddolwyr a chymheiriaid 26

Cydweithrediadau a phartneriaethau 27

Mynediad at adnoddau cymunedol 28

**Crynodeb** **29**

**Cyfeiriadau** **30**

**Atodiad A: Dulliau adolygu** **33**

**Atodiad B: Gwefannau / sefydliadau a chwiliwyd** **40**

# Cyflwyniad

Mae **Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru** a'r **Bartneriaeth Cymunedau Dyfeisgar** (RCP) wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd ar ymchwil i ddeall yn well rôl **cydweithredu amlsector wrth wella gweithredu cymunedol a lles**. Mae'r prosiect yn ymateb i ddiddordeb ar draws y Bartneriaeth Cymunedau Dyfeisgar mewn penderfynu nid yn unig beth sy'n gwneud cydweithredu'n effeithiol ond hefyd sut y gellir ei ddatblygu a'i wella mewn cyd-destunau penodol. Er bod ymchwil sy'n bodoli eisoes yn taflu goleuni ar sut beth yw cydweithredu llwyddiannus, mae llai yn hysbys am sut i gychwyn a chynnal cydweithredu lle nad oes 'cynhwysion' delfrydol neu lle mae'n anoddach eu cyflawni. Felly, mae'r prosiect hwn yn canolbwyntio ar nodi camau gweithredu pendant i ddatblygu cydweithredu sy'n addas ar gyfer gwahanol gyd-destunau a nodau.

Roedd dau gam i'r prosiect. Roedd cam un yn cynnwys adolygiad o dystiolaeth a gyhoeddwyd ers dechrau pandemig Covid-19 ar sut y **gall cydweithredu amlsector gefnogi gweithredu a lles cymunedol**, gan dynnu ar astudiaethau achos seiliedig ar ymanrfer, llenyddiaeth lwyd yn y DU, a llenyddiaeth academaidd. I gyd-fynd â'r adolygiad hwn a lleoli ei ganfyddiadau o fewn tystiolaeth ehangach ar yr hyn sy'n gwneud cydweithredu amlsector yn effeithiol wrth gefnogi gweithredu a lles cymunedol, comisiynodd y tîm y Ganolfan Ymchwil Hybu Iechyd (CHPR) ym Mhrifysgol Leeds Beckett i adolygu'r sylfaen dystiolaeth ymchwil cyn-bandemig. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau'r adolygiad hwnnw.

Mae'n dechrau drwy amlinellu'r dulliau a ddefnyddiwyd ar gyfer yr adolygiad o dystiolaeth (ceir rhagor o fanylion am ddulliau yn Atodiad A). Mae'r adran canfyddiadau yn adrodd ar ddeg ffactor sy'n cefnogi cydweithredu amlsector ac yn rhoi enghreifftiau o fodelau cydweithredu sefydledig o dan bedwar categori: Cryfhau cymunedau; Cydweithrediadau a phartneriaethau; Rolau gwirfoddolwyr a chymheiriaid; Mynediad at adnoddau cymunedol. Mae pob pennawd yn cynnwys crynodebau o negeseuon allweddol a dolenni ar gyfer darllen pellach.

Roedd cam dau yn cynnwys gweithdy i ymgysylltu â chanfyddiadau allweddol o'r adolygiadau o dystiolaeth, archwilio eu perthnasedd i wahanol gyd-destunau ymarfer a pholisi, ac ymgorffori profiad ac arbenigedd yn seiliedig ar ymarfer yn sylfaen dystiolaeth cam un. Ceir mewnwelediadau o'r gweithdy ar sut y gall cydweithredu amlsector gefnogi gweithredu cymunedol a lles yn y prif adroddiad - **Cydweithrediad amlsector i wella lles cymunedol**.

## Diffiniadau

Yr hyn rydym ni'n ei olygu wrth **'cydweithredu amlsector'** yw'r cydweithredu rhwng y sectorau cyhoeddus a chymunedol neu wirfoddol (e.e., gwasanaethau cyhoeddus a/neu lywodraeth leol a chenedlaethol, gyda sefydliadau neu grwpiau cymunedol, gwirfoddol a thrydydd sector). Rydym yn cydnabod arwyddocâd a gwerth cydweithrediadau sy'n cynnwys sectorau ehangach (e.e., y sector preifat). Fodd bynnag, mae ffocws yr adolygiad hwn, fel y'i pennir ar y cyd, yn canolbwyntio'n benodol ar gydweithredu rhwng y sector cyhoeddus a'r gymuned.

Yr hyn rydym ni'n ei olygu wrth **'gweithredu cymunedol'** yw unrhyw weithgareddau, ffurfiol neu anffurfiol, sydd â'r nod o gefnogi lles unigolion a chymunedau, ac a gyflawnir gan grwpiau sy'n seiliedig ar ddaearyddiaeth gyffredin (e.e., cymdogaethau) neu ddiddordebau cyffredin (e.e., hobïau, hunaniaethau, neu brofiadau bywyd).

Yr hyn rydym ni'n ei olygu wrth **'lles'** yw sut mae pobl yn teimlo'n emosiynol ac yn gorfforol. Mae hyn yn cwmpasu profiadau ar lefel unigol (e.e., hunanwerth, ymdeimlad o ddiben) ac ar lefel gymunedol (e.e., cydlyniad cymdeithasol, rhwydweithiau/gwasanaethau cymorth, neu ansawdd amgylcheddol). Mae gwella lles emosiynol a chorfforol yn gymhelliant ac yn ganlyniad y gweithgareddau a archwilir yn yr ymchwil hon. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod nad yw llawer yn defnyddio'r term 'lles' yn benodol, a bod profiadau emosiynol a chorfforol yn cael eu deall a'u cefnogi mewn amrywiol ffyrdd.

# Dulliau


Fe wnaethom gynnal adolygiad cyflym o dystiolaeth o ymchwil cyn y pandemig ar sut y gall cydweithredu amlsector sy'n cynnwys sefydliadau cymunedol a sector cyhoeddus gefnogi gweithredu cymunedol a chanlyniadau lles cymunedol. Roedd hyn yn cynnwys ffactorau a oedd yn helpu i'w ddatblygu a'i sefydlu; cyflwyno a gweithredu; helpu i gynnal cydweithredu amlsector; a goresgyn heriau neu rwystrau.

Cynhaliom chwiliad trylwyr am ymchwil academaidd a gedwir ar gronfeydd data electronig ac adroddiadau ac adnoddau ar-lein perthnasol (llenyddiaeth lwyd) yn gysylltiedig â chydweithredu amlsector sy'n cefnogi gweithredu cymunedol a chanlyniadau lles. Canolbwyntiom yn arbennig ar ffactorau, mecanweithiau, dulliau a gweithgareddau sy'n hwyluso gwahanol fathau o gydweithredu. Roedd yr adolygiad hwn yn blaenoriaethu adolygiadau presennol, gwerthusiadau o brosesau, ac ymchwil arall sy'n adrodd yn fanwl ar sut mae cydweithredu'n cael ei ddatblygu a'i gynnal, sut mae'r arferion hyn yn hwyluso gweithredu cymunedol a chanlyniadau lles, a pha gamau y gellir eu cymryd pan fydd cydweithredu'n methu. Ceir rhagor o fanylion am y dulliau adolygu yn Atodiad A.

Sgriniwyd cyfanswm o 718 o gyfeiriadau i'w cynnwys: 641 o deitlau a chrynodebau o chwiliadau cronfeydd data electronig a 77 o ffynonellau eraill. Ar ôl adolygu crynoadau/crynodebau ac asesu yn erbyn y meini prawf cynnwys a hepgor (gweler Atodiad A), barnwyd bod 137 o gyfeiriadau yn berthnasol i'r adolygiad. Adalwyd a darllenwyd papurau testun llawn y 137 o erthyglau hyn yn fanwl. O'r rhain, canfuwyd bod 46 yn berthnasol (yn bodloni'r meini prawf cynhwysiant) a chawsant eu cynnwys yn yr adolygiad cyflym hwn o dystiolaeth (gweler Ffigur 1).

# Canfyddiadau

Dadansoddodd yr adolygiad 46 o bapurau yn fanwl, gan dynnu gwybodaeth am fodelau neu ddulliau o gydweithredu, partïon cysylltiedig (partneriaid sector cyhoeddus a chymunedol), mathau o gamau gweithredu cymunedol a gefnogir, a'r canlyniadau o ran lles. Nododd hefyd hwyluswyr a rhwystrau rhag cydweithredu llwyddiannus, camau a gymerwyd pan aeth cydweithredu o chwith, a myfyrdodau, dysgu ac argymhellion ar gyfer polisi ac ymarfer.




**Ffigur 1: Nodi cyfeiriadau sydd wedi'u cynnwys**

# Ffactorau sy'n cefnogi cydweithredu amlsector

Cafodd ffactorau sy’n cefnogi cydweithredu amlsector i gefnogi gweithredu cymunedol a lles eu grwpio i 10 categori thematig:

1. **Ansawdd perthnasoedd presennol**
2. **Sefydlu neu adeiladu ar bartneriaethau a rhwydweithiau presennol**
3. **Camau i hybu a chefnogi perthnasoedd da**
4. **Adeiladu ymddiriedaeth yn fwriadol**
5. **Cefnogaeth, hyfforddiant a meithrin gallu**
6. **Diwylliant, agweddau ac arferion sefydliadol**
7. **Buddsoddi mewn seilwaith a chynllunio ar gyfer cyflawni**
8. **Eglurder a thryloywder ynghylch disgwyliadau a chynlluniau**
9. **Gwneud penderfyniadau ar y cyd**
10. **Dull hirdymor**

# 1. Ansawdd perthnasoedd presennol

Mae perthnasoedd hirdymor sefydledig o ymddiriedaeth, o fewn cymunedau a rhwng sefydliadau yn y 'system' (fel llywodraeth leol, y GIG, ac asiantaethau iechyd a gofal cymdeithasol eraill), yn ogystal â rhwng y 'system' a chymunedau (gan gynnwys sefydliadau sector gwirfoddol a chymunedol), yn fecanweithiau craidd sy'n cefnogi gweithredu cymunedol. Mae perthnasoedd o fewn a rhwng pob sefydliad o fewn y system ehangach, perthnasoedd rhwng pobl ar lefel gymunedol, a pherthnasoedd rhwng y 'system' a'r gymuned (sy'n aml yn cael eu cyfryngu gan arweinwyr cymunedol a'r sector gwirfoddol, cymunedol a mentrau cymdeithasol) oll yn hollbwysig. Mae perthnasoedd yn hwyluso arferion cydweithredol, gan feithrin ymgysylltiad a chefnogaeth yn seiliedig ar barch y naill at y llall.

- Nodir bod sefydlu cysylltiadau a rhwydweithiau da yn hwylusydd pwysig ar gyfer **ymgysylltu â'r gymuned**. I'r gwrthwyneb, gall hanes o berthnasoedd gwael, sy'n arwain at sinigiaeth a drwgdybiaeth, lesteirio cyfranogiad cymunedol (Harden et al., 2015) a chydweithredu ymhlith asiantaethau (Alderwick et al., 2021).

- Mae **gwybodaeth leol, brwdfrydedd, a chefnogaeth** gan sefydliadau sector gwirfoddol a chymunedol ac arweinwyr cymunedol ar lefel y gymdogaeth yn hanfodol ar gyfer cydweithredu amlsector effeithiol, wedi'i alluogi gan berthnasoedd o ansawdd uchel sy'n bodoli eisoes (Community Health Exchange, 2012; Fountain and Hicks, 2010; Harden et al., 2015; Hatzidimitriadou et al., 2012; Lunt et al., 2021).

- Parch – mae sefydliadau a'u staff yn cael **eu parchu a'u gwerthfawrogi** gan y gymuned (ac i'r gwrthwyneb) yn fan cychwyn da (Community Health Exchange, 2012; Fountain and Hicks, 2010; Harden et al., 2015; Hatzidimitriadou et al., 2012). Os oes diffyg parch, mae prosesau meithrin ymddiriedaeth yn hanfodol (gweler "adeiladu ymddiriedaeth yn fwriadol").

- Cefnogir perthnasoedd o ansawdd da gan arferion cynhwysol a hygyrch (Community Health Exchange, 2012; Harden et al., 2015; PHE & NHSE 2015), a gweithgareddau allgymorth (Harden et al., 2015).

# 2. Sefydlu neu adeiladu ar bartneriaethau a rhwydweithiau presennol

Yn Harden et al (2015) ac adolygiadau systematig eraill, roedd partneriaethau llwyddiannus sy'n meithrin ymgysylltiad cymunedol yn cynnwys y cynhwysion hyn:

- gallu cyrraedd **tir cyffredin a rhannu iaith a dealltwriaeth**, y gellid eu hwyluso **trwy ddull cydgynhyrchu** (Bagnall et al., 2020; Fountain and Hicks 2010, Hatzidimitriadou et al., 2012; PHE & NHSE 2015)

- rhoi unrhyw brofiadau negyddol blaenorol o'r neilltu a **chydnabod y cyfraniad** y gall pob ochr i'r bartneriaeth ei wneud (Bagnall et al., 2023; Community Health Exchange, 2012; Stansfield et al., 2020)

- **Swyddi newydd a rolau cyswllt** wedi'u datblygu'n benodol i oresgyn rhwystrau sefydliadol (Lunt et al., 2021; Windle et al., 2009).

Mae perthnasoedd gwael presennol – er enghraifft, cyfranogiad 'symbolaidd' blaenorol nad yw'n gysylltiedig â gwneud penderfyniadau ar y cyd, yn ogystal â gwrthwynebiaeth lwyr – yn magu drwgdybiaeth, sinigiaeth ac ymddieithrio ag unrhyw gymorth a gynigir (Harden et al., 2015). Gellir ystyried bod mentrau newydd yn 'ddim ond neidio ar drol arall' neu'n fygythiad i fentrau presennol (gweler hefyd, buddsoddi mewn seilwaith a chynllunio ar gyfer cyflawni).

**"Ymgynghorwyd â phreswylwyr hyd at syrffed, wyddoch chi, ac 'Wyddoch chi beth? Bydden ni'n hoffi bin arall' a bydden nhw'n cael mainc oherwydd dyna mae'r darparwyr gwasanaethau wedi'i ddweud... Felly maen nhw'n meddwl, wel, beth yw pwynt dweud unrhyw beth?... Dydych chi ddim yn mynd i wrando arna' i beth bynnag"** (Bagnall et al., 2015)

# 3. Camau i hybu a chefnogi perthnasoedd da

Mae'r canlynol yn gamau y gallai gwasanaethau statudol eu cymryd i hyrwyddo perthnasoedd da i gefnogi gweithredu cymunedol:

- **Cydleoli sefydliadau a gwasanaethau mewn mannau ffisegol a rennir** (gweler hefyd seilwaith). Mae Windle et al. (2009) yn nodi bod timau amlasiantaeth, amlddisgyblaethol wedi hwyluso trafodaeth hawdd, parch y naill at y llall, a chyngor ac atgyfeiriadau ar draws asiantaethau, a oedd yn arbennig o lwyddiannus pan oedd staff yn cael eu cydleoli mewn man ffisegol yn hytrach na gweithredu fel tîm 'rhithwir'.

- **Atebolrwydd a llywodraethu da.** Mae hyn yn cynnwys sefydlu seilwaith ar gyfer cyfranogiad, megis fforymau cymdogaeth, sy'n dod ag asiantaethau ac aelodau o'r gymuned ynghyd i ddatblygu perthnasoedd ymddiriedus hirdymor rhwng ac o fewn cymunedau, gweithwyr proffesiynol a sefydliadau (Stansfield et al., 2020).  Nododd Alderwick et al. (2021) fod llywodraethu da yn golygu cynnwys yr holl asiantaethau a staff perthnasol, gan gynnwys staff rheng flaen ac aelodau'r gymuned, tra nododd Harden et al. (2016) fod arferion anghefnogol, megis diffyg rhybudd ar gyfer mynd i gyfarfodydd a pheidio ag ad-dalu treuliau, yn ei gwneud hi'n anos meithrin perthnasoedd ar gyfer cydweithio. Nodwyd hefyd fod cefnogaeth arweinyddiaeth gref ac eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau'r asiantaethau dan sylw yn ffactorau galluogi pwysig (Alderwick et al., 2021).

- **Cyfathrebu rheolaidd, agored a chlir.** Nododd Alderwick et al. (2021) fod problemau gyda chyfathrebu yn gyffredin, gyda chyfathrebu gwael yn peri bod cydweithredu yn fwy heriol. Mae cyfathrebu da yn agored, yn aml, yn cynnwys rhannu gwybodaeth ac arfer gorau, ac mae'n cynnwys sefydlu seilwaith sy'n caniatáu ac yn annog rhannu gwybodaeth, megis protocolau ar gyfer rhannu gwybodaeth, cyfarfodydd a drefnir yn rheolaidd, a phwyllgorau (ffurfiol ac anffurfiol). Gwelwyd y dull hwn yn y fenter Dinasoedd sy'n Gyfeillgar i Oedran, lle ffurfiwyd partneriaethau newydd rhwng cymunedau o bobl hŷn, ysgolion, busnesau, y llywodraeth, a chyrff anllywodraethol, gan helpu i feithrin gallu a chodi ymwybyddiaeth (Bagnall et al., 2020). Mewn un enghraifft, Heneiddio'n Dda yn Northumberland, roedd rôl y gwasanaethau statudol o ran rhannu gwybodaeth yn cael ei hystyried yn 'alluogwr critigol'.

# 4. Adeiladu ymddiriedaeth yn fwriadol

Mae Harden et al. (2015) yn pwysleisio'r angen am fuddsoddi amser, ymdrech ac adnoddau mewn meithrin perthnasoedd ac ymddiriedaeth rhwng asiantaethau sy'n dymuno ymgysylltu â chymunedau, a'r cymunedau eu hunain, yn enwedig y rheini â pherthnasoedd anodd neu wrthdaro ag asiantaethau eraill yn y gorffennol.

Er bod gorgyffwrdd sylweddol â 'chamau gweithredu i hyrwyddo perthnasoedd da', disgrifir proses benodol iawn i feithrin ymddiriedaeth lle y mae'n ddiffygiol yn rhaglendysgu trwy brofiad 7 cam Cysylltu Cymunedau (C2) (Durie, Wyatt & Stuteley, 2004; Durie & Wyatt, 2013):

| | |
|---|---|
| **Cam 1** | Dechrau **creu amodau galluogi** a chychwyn perthnasoedd newydd sydd eu hangen ar gyfer trawsnewid ar lefelau strategol, darparu gwasanaethau rheng flaen a chymunedol. Grŵp Llywio Strategol C2 a chwmpasu'r gymdogaeth darged. Penodi hwylusydd C2 lleol a nodi preswylwyr 'allweddol' er mwyn hunanasesu lefelau cysylltedd cymunedol, gobaith a dyhead gwaelodlin ar y cyd. |
| **Cam 2** | Sefydlu **Grŵp Llywio Partneriaeth** C2 sy'n cynnwys darparwyr gwasanaethau rheng flaen allweddol a thrigolion, sy'n **rhannu diddordeb cyffredin** mewn gwella'r gymdogaeth darged. Cynnal gweithdy cysylltu a nodi tîm o 6-8 aelod i fynd i Raglen Dysgu drwy Brofiad 'ton gyntaf' deuddydd C2 |
| **Cam 3** | Mae Grwp Llywio'r Bartneriaeth yn cynllunio ac yn cynnal **Digwyddiad Gwrando** i nodi a blaenoriaethu materion cymdeithasol cymdogaeth ac mae'n cynhyrchu adroddiad mewn digwyddiad adborth i breswylwyr a'r Grŵp Llywio Strategol wythnos yn ddiweddarach. Ymrwymo i ffurfio a hyfforddi partneriaeth a arweinir gan breswylwyr i ddatblygu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â materion ar y cyd. |
| **Cam 4** | Ffurfio'r bartneriaeth i weithredu o **ganolbwynt hawdd ei gyrchu** mewn lleoliad cymunedol, gan agor **sianeli cyfathrebu clir** i drigolion trwy gyfryngau cymdeithasol a 'theithiau cerdded' o gwmpas ystadau. Cynllunio ymweliadau safle â safleoedd cymunedol C2 sefydledig a chroesawu ymweliadau ganddynt yn eu tro. Nodi 6-8 dysgwr newydd i 'ail don' Rhaglen Dysgu drwy Brofiad C2. |

| | |
|---|---|
| **Cam 5** | Cynnal **cyfarfodydd partneriaeth gweithredol** misol i gydlynu cynllun gweithredu digwyddiadau dysgu. Dathlu 'enillion' cynnar yn weladwy, megis ceisiadau llwyddiannus sy'n cefnogi blaenoriaethau cymunedol a hyrwyddo sylw cadarnhaol yn y cyfryngau, gan arwain at lefelau cynyddol o hyder cymunedol, gwirfoddoli a momentwm tuag at newid. Ymgymryd â hyfforddiant partneriaeth lle bo angen i atgyfnerthu sgiliau preswylwyr ymhellach. |
| **Cam 6** | **Tystiolaeth o gryfhau cymunedol trwy hunandrefnu gan y preswylwyr**, megis sefydlu grwpiau newydd ar gyfer pob oed a datblygu mentrau cymdeithasol arloesol. Ymatebion cyflym wrth ddarparu gwasanaethau gan arwain at fwy o ymddiriedaeth gymunedol, cydweithredu, cydgynhyrchu a datrys problemau yn lleol. |
| **Cam 7** | Sefydlu'r bartneriaeth yn gadarn gyda **'llais' effeithiol**. Symud ymlaen ar drywydd gwelliant. Ariannu trigolion allweddol i gydlynu gweithgareddau. Arsylwi canlyniadau mesuradwy a thystiolaeth o newid trawsnewidiol gweladwy, megis mannau chwarae newydd, amgylcheddau gwell a gostyngiad mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol, oll yn cyfrannu at welliant iechyd a chymdeithasol mesuradwy gydag enillion cyfochrog ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus eraill. |



# 5. Cefnogaeth, hyfforddiant a meithrin gallu

Mae hyfforddiant ar gydgynhyrchu ac ymgysylltu â'r gymuned yn bwysig i staff sefydliadol ac i aelodau'r gymuned sy'n cymryd rhan mewn cydweithrediadau amlsector.

- Ar gyfer **staff**, gellir datblygu'r 'sgiliau personol' sydd eu hangen ar gyfer cydweithredu effeithiol trwy hyfforddiant neu gefnogaeth/mentora:

**"Datblygu sgiliau staff o ran meithrin perthnasoedd, gwrando go iawn, ymatebolrwydd a 'bod yn real'"** (Hatzimidriaou et al., 2012)

- Canfuwyd hefyd bod mentora a chefnogaeth i **aelodau'r gymuned** yn bwysig, i'w galluogi i deimlo'n hyderus i gael llais cyfartal o fewn cyrff gwneud penderfyniadau (neu, mewn geiriau eraill, i eistedd wrth y 'bwrdd uchaf o ran gwneud penderfyniadau') ac i gymryd rhan weithredol mewn materion sy'n effeithio ar eu bywydau (Fountain a Hicks, 2010; Harden et al., 2015)

Dylai hyfforddiant a meithrin gallu gael eu **hintegreiddio i gydweithrediadau a phartneriaethau** fel nod terfynol ynddo'i hun, yn hytrach na dim ond ffordd o gyflawni nod (Alderwick et al., 2021; Bagnall et al., 2020; Harden et al., 2015; South et al., 2021). Mae cysylltiad agos rhwng hyn ac eglurder a thryloywder diben y cydweithrediad neu'r bartneriaeth. Mae rhai camau a ganfuwyd i wella effaith gadarnhaol cymorth, hyfforddiant a meithrin gallu yn cynnwys:

- **Cydnabod** capasiti a gallu presennol o fewn y gymuned a sefydliadau cyfranogol (a chymryd camau i feithrin gallu). Mae hon yn agwedd sylfaenol ar ddull seiliedig ar asedau ac mae'n cynnwys trafodaethau parhaus am gapasiti a gallu, yn hytrach na gwneud rhagdybiaethau am sgiliau a galluoedd presennol yr aelodau sy'n cymryd rhan (Bagnall et al., 2020). Mae hefyd yn hanfodol cydnabod cyfrifoldebau a galwadau eraill ar amser pobl - yn aelodau o'r gymuned a staff sefydliadol - i gael darlun clir o'r capasiti presennol ac unrhyw adnoddau ychwanegol y gallai fod eu hangen (Harden et al., 2015).

- Bod sefydliadau'n darparu **mannau cyfarfod hygyrch** a deunyddiau priodol ar gyfer cyfathrebu – sy'n arbennig o bwysig i aelodau'r gymuned. Efallai y bydd angen cyfarfod mewn mannau cymunedol lleol yn hytrach na gofod 'swyddfa' sefydliadol canolog os ymgysylltu gwirioneddol â sefydliadau ac aelodau'r gymuned yw'r nod (Bagnall et al., 2015; Harden et al., 2015).

- **Hyblygrwydd/diwygio amserlenni a deunyddiau hyfforddi** – efallai na fydd deunyddiau hyfforddi wedi'u cynllunio yn gweddu i lefelau llythrennedd neu arddulliau dysgu aelodau'r gymuned, a gall hyfforddiant wedi'i amserlennu wrthdaro â chyfrifoldebau gofalu neu ddefodau diwylliannol neu grefyddol. Mewn sefydliadau, mae angen diogelu amser staff ar gyfer hyfforddiant ac ymgysylltu wrth i flaenoriaethau eraill godi (Bagnall et al., 2015; Harden et al., 2015).

# 6. Diwylliant, agweddau ac arferion sefydliadol

Gall gwahaniaethau mewn diwylliant, agweddau ac arferion sefydliadol rhwng sefydliadau sy'n cymryd rhan achosi anawsterau posibl mewn cydweithrediadau amlsector. Gall pob sefydliad ddod ar draws gwrthwynebiad i rannu pŵer a rheolaeth, boed hynny oherwydd strwythurau llywodraethu sy'n rhwystro rhannu gwybodaeth neu gredoau proffesiynol cryf ynghylch yr hyn sydd orau i'r gymuned, neu'n syml yn anesmwythder ynghylch mabwysiadu ymagwedd wahanol. Gall ymrwymiad cryf a 'chefnogaeth' i ddiben cyffredin gan bob sefydliad sy'n cymryd rhan oresgyn y rhwystr posibl hwn, gyda chydweithredu yn hwyluso hyn a bod rhannu pŵer yn ofyniad datganedig gan arianwyr a chomisiynwyr.

- **Ymrwymiad sefydliadol** - Darganfu Harden et al. (2015) fod diffyg ymrwymiad sefydliadol (a diffyg cysylltiedig o ran staff ymroddedig, amser ac arian) yn rhwystr sylweddol rhag ymgysylltu effeithiol (Robinson et al., 2010). Amlygodd adolygiadau eraill fod ymrwymiad ar lefel arweinyddiaeth yn alluogwr i gydweithredu a rhannu pŵer (Alderwick et al., 2021; PHE & NHSE 2015; Stansfield et al., 2020).

- Canfuwyd bod adeiladu ymgysylltiad cymunedol i **ofynion ariannu** yn effeithiol o ran creu diwylliant sefydliadol cefnogol, gyda'r effaith fod cymunedau wir yn teimlo ymdeimlad o berchnogaeth dros brosiectau (Harden et al., 2015).

- **Goresgyn gwrthwynebiad i rannu pŵer a rheolaeth** – Adroddodd Harden et al. (2015) nifer o enghreifftiau o wrthwynebiad sefydliadol rhag rhannu pŵer a rheolaeth, a ddangosir gan arferion sy'n ei gwneud hi'n anodd i sefydliadau cymunedol gymryd rhan mewn trafodaethau, megis peidio â rhoi digon o rybudd ar gyfer cyfarfodydd, a pheidio ag ad-dalu costau teithio. Nodwyd hefyd fod gwrthwynebiad proffesiynol i ddulliau gweithredu yn y gymuned yn rhwystr sylweddol mewn adolygiadau eraill (Alderwick et al., 2021; Bagnall et al., 2020). I'r gwrthwyneb, mewn gwerthusiad o brosesau cydgynhyrchu mewn prosiect iechyd meddwl cymunedol yn Wandsworth, canfu Hatzimidriaou et al. (2012) fod sefydliadau cymunedol a'r GIG yn gallu cydweithio'n fwy effeithiol i gyflawni pan roedd darparwyr gwasanaeth yn derbyn bod gan sefydliadau cymunedol ddealltwriaeth well o anghenion a disgwyliadau eu haelodau. Adlewyrchwyd y teimlad hwn mewn arolwg cenedlaethol ar ddulliau cymuned gyfan a gynhaliwyd gan Public Health England:

> **"ni ddylai pŵer strategaeth a yrrir ar lawr gwlad gael ei ystyried yn 'her i awdurdod' ond fel ffordd o ddatblygu cydberchnogaeth ar gynnydd tuag at nodau hunanbenderfynol"** (Canfyddiad arolwg pobl, Stansfield et al., 2020)

# 7. Buddsoddi mewn seilwaith a chynllunio ar gyfer cyflawni

Mae llawer o dystiolaeth yn ymwneud â sut mae cydweithredu amlsector yn cael ei ariannu, gan bwysleisio pwysigrwydd buddsoddi yn y 'seilweithiau' sy'n cefnogi cydweithredu (e.e., staffio/capasiti, sefydliadau gwirfoddol, cymunedol a mentrau cymdeithasol, rhwydweithiau a gweithgareddau cymunedol, ynghyd â seilwaith ffisegol).

**Cyllid fel galluogwr a rhwystr**

Mae mwyafrif helaeth y cyhoeddiadau yn nodi bod cyllid neu fuddsoddiad yn ffactor hwyluso, neu'n fecanwaith sylfaenol. I'r gwrthwyneb, mae diffyg cyllid cynaliadwy yn cael ei nodi'n gyffredin fel rhwystr sylweddol. Mae cael adnoddau a mynediad at gyllid yn amod hanfodol ar gyfer gwaith cydweithredol effeithiol gyda chymunedau (Alderwick et al., 2021; Bagnall et al., 2020; Harden et al., 2015). Mae Harden et al. (2015), yn eu hadolygiad o hwyluswyr a rhwystrau rhag ymgysylltu â'r gymuned, yn amlygu bod seilwaith yn brif thema, gan gynnwys buddsoddi mewn seilwaith a chynllunio. Pwysleisiwyd cyllid hefyd mewn adroddiadau eraill ar fodelau cydweithredu penodol, megis rhwydweithiau cymdogaeth (Dayson et al., 2022), Partneriaethau Cynllunio Cymunedol, a Threfnwyr Cymunedol (Cameron et al., 2015). Mewn adroddiad am gydweithredu rhwng y sector tai a llywodraeth leol, roedd tri o'r pum rhwystr pennaf yn ymwneud ag adnoddau: cyllid annigonol; diffyg hyblygrwydd ariannol gan lywodraeth leol; a strwythurau ariannol nad ydynt yn cymell integreiddio (Wilkes, 2015). Roedd buddsoddiad fel ffactor yn effeithio ar gydweithrediadau â chymunedau ar wahanol lefelau o lefelau strategol i leol, a chynigiwyd atebion amrywiol, fel y trafodir isod.

**Gwerth buddsoddiad hirdymor mewn sefydliadau a chymunedau gwirfoddol, cymunedol a mentrau cymdeithasol**

Mae gwerth buddsoddiad hirdymor mewn cymunedau a sefydliadau gwirfoddol, cymunedol a mentrau cymdeithasol yn cael ei bwysleisio mewn nifer o gyhoeddiadau (Coutts et al., 2021; Dayson et al., 2022; Locality & Power to Change, 2022; South et al., 2021a; South, et al., 2021b; Stansfield et al., 2020). Awgrymodd Coutts et al. (2021) fod angen adlinio cyllidebau i adlewyrchu barn ac anghenion cymunedau. Mae buddsoddi yn helpu i feithrin gallu yn y sector gwirfoddol, cymunedol a mentrau cymdeithasol (Coutts et al., 2021; Locality et al., 2022), gan alluogi cymunedau i ymgysylltu â chynllunio, datblygu a chyflawni gweithredu lleol. Mae cyhoeddiad gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol yn dod i'r casgliad bod buddsoddi yn y sector gwirfoddol, cymunedol a mentrau cymdeithasol yn hanfodol i gefnogi gwaith cydweithredol (Cymdeithas Llywodraeth Leol (LGA), 2022). Rhoddir enghraifft yn Ne Swydd Gaerloyw, lle mae'r cyngor wedi cychwyn 'micro-ariannu' ar gyfer gweithgareddau strategol yn y sector gwirfoddol a chymunedol, e.e., grantiau arweinyddiaeth i gefnogi cyfranogiad.

Mae buddsoddiad wedi'i gyfyngu gan yr hinsawdd genedlaethol o galedi, gan effeithio ar yr adnoddau sydd ar gael i gymunedau. Amlygwyd y crebachiad mewn cyllid i gyrff seilwaith gwirfoddol, cymunedol a mentrau cymdeithasol yn yr hinsawdd hon gan Jopling a Jones (2018), a chanfuwyd bod cyni yn ffactor negyddol mewn gwerthusiad o raglen micro-grantiau cymunedol a weinyddir gan gyrff seilwaith cenedlaethol gwirfoddol, cymunedol a mentrau cymdeithasol (New Economics Foundation & People's Health Trust, 2022). Hefyd, amlygodd Baker et al. (2022) fod y diffyg cyllid ar gyfer awdurdodau cyhoeddus sy'n 'teimlo'r pwysau' yn sbardun posibl ar gyfer cydweithredu amlsector pellach:

**“Efallai bod toriadau mewn cyllid wedi datgymalu gallu awdurdodau lleol ar gyfer ymgysylltu â’r gymuned, ond trwy ymuno ag ardaloedd Big Local, gellir sefydlu llwybrau newydd i’r gymuned.”**

**Mynediad at gyllid craidd**

Mae mynediad gan sefydliadau gwirfoddol, cymunedol a mentrau cymdeithasol at ffynonellau cyllid craidd i ddatblygu a chynnal gweithredu lleol yn thema allweddol. Mae cylchoedd ariannu tymor byr parhaol wedi’u nodi’n broblem sy’n cyfyngu ar ddatblygiad cymunedol ac yn tanseilio partneriaethau (Alderwick et al., 2021). Mae ar sefydliadau cymunedol angen mynediad at ffrydiau ariannu hirdymor a chynaliadwy (Locality & Power to Change, 2022):

**“Un o’r problemau mwyaf a nodwyd gan sefydliadau yw mynediad at ffrydiau refeniw a chyllid cynaliadwy, er mwyn galluogi prosiectau cymunedol i sefydlu, graddio ac adeiladu”**

Byddai ffrydiau ariannu cynaliadwy yn golygu darparu mynediad at ystod o grantiau, o fawr i fach, a chanolbwyntio ar wahanol agweddau ar adeiladu gweithredu cymunedol – o grantiau bach neu ficro i weithgareddau cymunedol penodol (fel y rhai a ddarperir gan y People’s Health Trust) i grantiau rhaglen ac adnoddau ar gyfer meithrin gallu yn y sector gwirfoddol, cymunedol a mentrau cymdeithasol, megis hyfforddiant a staff (Locality et al., 2023).

**Mae cyllid digonol yn gysylltiedig â'r gallu i gyflawni**

Amlygodd adolygiad o gydweithredu rhwng sefydliadau gofal iechyd a sefydliadau ‘nad ydynt yn ofal iechyd’ (Alderwick et al., 2021) fod adnoddau annigonol (cyllid, offer a staff) yn rhwystr cyffredin. Mewn gwerthusiad o Rwydweithiau Cymdogaethau Leeds (LNNs), nodwyd bod cyllid craidd yn hanfodol i weithrediad y rhwydwaith, gan ganiatáu ar gyfer hyblygrwydd a chadw staff (Dayson et al., 2022). Roedd Dayson et al. (2022) yn argymell model ariannu gwahanol ar gyfer rhwydweithiau cymdogaethau yn seiliedig ar resymeg cyllid craidd a chysylltiadau â’r system iechyd a gofal:

**“O ran adnoddau, rydym yn argymell gweithio gyda’r LNNs [Rhwydweithiau Cymdogaethau Leeds] a rhanddeiliaid lleol eraill i gyd-ddylunio model ariannu tryloyw a rhesymegol newydd sy’n rhoi isafswm cyllid craidd sylfaenol i LNNs ar lefel a fydd yn sicrhau sefydlogrwydd rhwydweithiau cymdogaethau ac yn ffurfio sail ar gyfer twf.”**

Pwysleisiwyd arwyddocâd adnoddau o ran recriwtio a chadw staff cyflogedig mewn sawl cyhoeddiad (Baker et al., 2022; Coutts et al., 2021; Locality et al., 2023; New Economics Foundation & People's Health Trust, 2022; South et al., 2021a). Daeth diffyg staff ymroddedig ac adnoddau i'r amlwg fel rhwystr mewn adolygiad o ymgysylltu â'r gymuned (Harden et al., 2015). Mae Locality yn darparu argymhellion mwy penodol ynghylch buddsoddi yn y gweithlu gwirfoddol, cymunedol a mentrau cymdeithasol, gan gynnwys gweithwyr cyswllt/rhagnodwyr cymdeithasol a rolau arwain/cydgysylltu (Locality et al., 2023). Mae hyn yn cefnogi sefydliadau gwirfoddol, cymunedol a mentrau cymdeithasol i gyflawni targedau iechyd.

**Mynediad at gyllid i gefnogi gweithgaredd cymunedol**

Mae cyllid hyblyg yn hanfodol ar gyfer meithrin gweithredu lleol (Locality et al., 2022). Nodwyd bod cyllid ar gyfer grwpiau cymunedol lleol yn hwylusydd yn y rhaglen 'Local People' (People's Health Trust et al., 2020). Fodd bynnag, roedd diffyg eglurder ynghylch prosesau ariannol a chyllidebol yn rhwystr mewn rhaglen debyg - Local Conversations (New Economics Foundation & People's Health Trust, 2022). Canfuwyd hefyd bod micro-gomisiynu yn alluogwr mewn adolygiad o gymorth yn y gymuned i bobl hŷn (Bagnall et al., 2020).

Ar lefel gymunedol, gall gwirfoddolwyr ac aelodau'r gymuned ddod ar draws rhwystrau uniongyrchol ac ymarferol rhag ymgysylltu oherwydd diffyg arian a chostau cysylltiedig (Jopling & Jones, 2018).

Mae Pollard a Hashmi (2023) yn amlygu bod adnoddau wedi cyrraedd cymunedau yn ystod y pandemig, ond mae risgiau na chaiff y ffyrdd newydd o weithio a buddsoddi eu cynnal.

**Modelau ariannu**

Mae'r adolygiad wedi nodi modelau ariannu yn lle'r cyllid tymor byr o fath prosiect sy'n tanseilio gweithredu cymunedol. Gall comisiynu effeithiol gefnogi perthnasoedd strategol rhwng sector gwirfoddol, cymunedol a mentrau cymdeithasol a llywodraeth leol (Cymdeithas Llywodraeth Leol, 2022).

Mae rhai cyhoeddiadau yn dadlau dull systemau (Stansfield et al., 2020). Mae dulliau systemau wedi'u seilio ar ddealltwriaeth o gymhlethdod heriau cymdeithasol ac iechyd, gan amlygu'r angen am weithredu aml-lefel a gwaith partneriaeth cadarn, gan gynnwys gyda chymunedau, i ddatblygu a gweithredu atebion. Mae gweithio seiliedig ar le yn rhannu ethos tebyg, gan ganolbwyntio ar gydweithredu amlsector mewn ardaloedd a chymdogaethau, neu ar draws awdurdod lleol. Mae Tiratelli (2020) yn archwilio gwahanol safiadau y gall sefydliadau ar draws sectorau eu mabwysiadu i ysgogi cymunedau – "strategaeth seiliedig ar le" yw un dull sy'n ceisio creu'r amodau cywir ar gyfer cynnull cymunedol drwy fuddsoddi mewn seilwaith. Mae buddsoddi mewn seilwaith gwirfoddol, cymunedol a mentrau cymdeithasol hefyd yn thema ganolog adroddiad Locality ar rôl sefydliadau gwirfoddol, cymunedol a mentrau cymdeithasol mewn ecosystemau iechyd cymdogaeth (Locality et al., 2023).

Mae symud penderfyniadau ariannu i gymunedau drwy eu hariannu'n uniongyrchol yn ddull amgen sy'n gysylltiedig â grymuso (Pollard et al., 2021). Mae hyn yn golygu cyfeirio cyllid at sefydliadau cymdogaeth fel y gall pobl leol nodi eu blaenoriaethau ac yna dylunio a chyflwyno gwelliannau lleol gyda'i gilydd. Mae'r egwyddor hon yn sail i fentrau fel Big Local (Baker et al., 2022), sydd wedi arwain at welliannau pendant mewn seilwaith a gofodau lleol. Roedd bod yn annibynnol ar awdurdodau yn ffactor yn llwyddiant y rhaglen (Baker et al., 2022).

Cyllid uniongyrchol i gymunedau oedd y model hefyd mewn prosiectau fel Local Conversations (People's Health Trust et al., 2020) a Local People (New Economics Foundation & People's Health Trust, 2022), yn ogystal ag mewn rhai prosiectau grymuso a nodwyd gan Pollard et al. (2021). Canfu adolygiad systematig o wneud penderfyniadau ar y cyd y gallai cyllidebu cyfranogol wella ymdeimlad pobl o berthyn i'r gymuned a'u hymddiriedaeth mewn llywodraeth leol (Pennington et al., 2018).

Mae dulliau comisiynu hyblyg, sy'n seiliedig ar asedau, yn anelu at nodi, paratoi a chryfhau asedau o fewn cymunedau ymhellach. Mae comisiynwyr yn cefnogi adeiladu cymunedau gydag amser drwy roi camau gweithredu a nodir gan gymunedau ar waith. Mae Lloyd and Reynolds (2020) yn archwilio'r modd y mae cynghorau yn mabwysiadu modelau Datblygu Cymunedol Seiliedig ar Asedau (ABCD): "Ar y dechrau, roedd comisiynu rhywbeth lle na ddigwyddodd fawr ddim am y saith mis cyntaf yn teimlo'n beryglus, ond mae meithrin ymddiriedaeth a chysylltiadau yn cymryd amser." (t28). Maent yn argymell osgoi modelau ariannu anhyblyg ac yn lle hynny mabwysiadu ymagwedd agored, alluogol at gomisiynu, gan ganiatáu ar gyfer meithrin mentrau ar lawr gwlad. Maent hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd datblygu cyd-ddealltwriaeth gyda chomisiynwyr (Lloyd & Reynolds, 2020). Mae Bargen Wigan yn enghraifft o newid cyllid ar draws cyngor cyfan gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar asedau, gan gydweithio ag aelodau'r gymuned a staff i ysgogi gwelliannau (Pollard et al., 2021). Mae Locality yn pwysleisio arwyddocâd y buddsoddiad hwn:

> **"Mae'r 'Gronfa Buddsoddi Cymunedol' wedi buddsoddi £10m mewn mentrau gwirfoddol, cymunedol a mentrau cymdeithasol ar draws y fwrdeistref ers 2013, i ddatblygu gallu cymunedol. Mae rhaglen o drosglwyddo asedau cymunedol (CAT) hefyd yn cryfhau pŵer cymunedol trwy fodelau perchnogaeth a menter leol."** (Locality et al., 2022).

Yn olaf, mae trosglwyddo asedau, yn gysylltiedig â chyllidebu cyfranogol, yn ffordd o gynhyrchu a chefnogi gweithredu cymunedol. Yng Nghernyw, mae asedau wedi'u trosglwyddo i berchnogaeth leol mewn dros 100 o gymunedau (Locality et al., 2022). Yn ddiddorol, dim ond un adroddiad a soniodd am gyllid drwy ddyngarwch (Tiratelli, 2020).

# 8. Eglurder a thryloywder ynghylch disgwyliadau a chynlluniau

Mae gorgyffwrdd rhwng y thema hon a 'chamau gweithredu i hyrwyddo perthnasoedd da'. Mae sawl adolygiad yn amlygu pwysigrwydd tryloywder mewn disgwyliadau a chynlluniau, a ategir gan broses hirdymor i ddatblygu gweledigaeth, gwerthoedd ac egwyddorion cyffredin (Alderwick et al., 2021; Stansfield et al., 2020). Er enghraifft, nododd Stansfield et al. (2020) fod

**"dull system gyfan yn cael ei gynnal trwy gael uchelgais strategol a hirdymor ar gyfer cryfhau cymunedau a oedd yn cael ei rannu a'i gyfathrebu rhwng asiantaethau a chymunedau."**

- **Amlygwyd hefyd bod bod yn dryloyw ac yn barod i gydnabod a thrafod cydbwysedd pŵer** yn bwysig – nid yn unig rhwng cymunedau ac asiantaethau eraill, ond hefyd rhwng asiantaethau eu hunain. Er enghraifft, mae Wallace (2013) yn awgrymu "yn gysylltiedig ag iechyd a gofal cymdeithasol, iechyd yn aml yw'r prif bartner".

- Gall **polisïau cenedlaethol** gael eu defnyddio i gefnogi partneriaethau lleol (e.e., Alderwick et al., 2021). Fodd bynnag, nid yw hyn bob amser yn trosi'n gydweithio effeithiol, fel y gwelwyd yn Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf Cymru, lle y datblygodd rhwystredigaeth ymhlith aelodau'r gymuned oherwydd diffyg ymateb i'r broses ddemocratiaeth gyfranogol arfaethedig gan ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus, a diffyg ymwybyddiaeth ohoni (Wallace et al., 2013) .

- Ystyrir bod **agendâu sy'n cystadlu** yn rhwystr rhag cydweithredu effeithiol i gefnogi gweithredu cymunedol. Er enghraifft, codwyd gwrthwynebiad proffesiynol i fentrau a arweinir gan y gymuned dro ar ôl tro yn gysylltiedig â mentrau sydd â'r nod o gefnogi grwpiau sy'n draddodiadol agored i niwed, megis pobl hŷn (Bagnall et al., 2020). Yn yr un astudiaeth, cydnabuwyd hefyd y gall natur sefydliadau cyhoeddus wneud agenda sy'n canolbwyntio ar y gymuned yn fwy anodd ei chyflawni – yr enghraifft a roddwyd oedd bod modelau Rheolaeth Gyhoeddus Newydd, gyda'u pwyslais ar ddangosyddion perfformiad allweddol, yn penderfynu beth fyddai'r canlyniadau o'r cychwyn cyntaf, yn hytrach na chaniatáu i atebion lleol ddod i'r amlwg yn organig o lawr gwlad. Fodd bynnag, lle mae arloesedd yn bodoli mewn cydweithredu a'r gweithredu cymunedol y mae'n ei gefnogi, nodwyd bod hynny i raddau helaeth oherwydd bod awdurdodau lleol yn hyrwyddo hyn yn y tymor hir.

# 9. Gwneud penderfyniadau ar y cyd

Mae gwneud penderfyniadau ystyrlon ar y cyd yn cynnwys cydgynhyrchu, ond nid yw'n ganlyniad yn unig iddo.  Mae cydnabod a thrafod y nodau a'r blaenoriaethau y mae pob aelod yn eu dwyn i'r cydweithredu yn hanfodol ar gyfer gwneud penderfyniadau ystyrlon ar y cyd.

Canfu adolygiad systematig fod gwneud penderfyniadau ar y cyd yn arwain at ymgysylltu cymunedol effeithiol, gan arwain at lai o anghydraddoldebau iechyd, gwell iechyd a lles, yr amgylchedd ffisegol, cysylltiadau cymdeithasol, ymdeimlad o gymuned, balchder a pherthyn (ysbryd cymunedol) (Pennington et al., 2018) . Argymhellodd yr adolygiad systematig bedair egwyddor ar gyfer cyfranogiad ystyrlon (Pennington et al., 2018):

- Cytunir ar bŵer a chydnabyddir ei fod yn cael **ei ddal ar y cyd** gan yr holl bartïon cysylltiedig.
- Mae yna **gymryd rhan weithredol a llawn ym mhob penderfyniad** sy'n effeithio ar yr ymyriad neu'r prosiect.
- Caiff **rhwystrau** posibl rhag mynediad a chyfranogiad **eu cydnabod ac eir i'r afael â nhw** (e.e., incwm, addysg, rhywedd, ethnigrwydd, oedran, salwch, anabledd, iaith, diwylliant, cyfrifoldebau gofalu, ac ati)
- Pan fo'n briodol a phan fo'r gymuned yn dymuno hynny, mae **cyfranogiad llawn a gweithgar yn y broses o roi newid ar waith** yn y gymuned.

Dywedwyd bod adborth am effaith y cydweithio a'r 'enillion cyflym' yn ddefnyddiol o ran cynnal ymgysylltiad, ynghyd â chyfathrebu agored a phroses gyfranogol gynhwysol. Mae angen hwyluswyr medrus i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau, ac i osgoi gwrthdaro.

Adlewyrchir yr egwyddorion hyn sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn **rheolau euraidd Locality ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned yn ymarferol**:

1. Gwnewch ef yn berthnasol i bobl.
2. Gwnewch ymdrech.
3. Ewch i ble mae pobl.
4. Byddwch yn groesawgar.
5. Gwnewch hi'n hawdd i bobl gymryd rhan.
6. Cadwch gwestiynau'n syml.
7. Gwrandewch yn ofalus ar yr hyn y mae pobl yn ei ddweud.
8. Dyfeisiwch yn fyrfyfyr ac addasu.
9. Rhannwch yr hyn y mae pobl wedi'i ddweud.

**"Mae seilweithiau cyfranogiad yn hanfodol ar gyfer ymgysylltu parhaus, cydgynhyrchu a gwneud penderfyniadau cyfranogol, megis fforymau cymdogaeth sy'n dod ag asiantaethau ac aelodau o'r gymuned ynghyd ar gyfer datblygu gweithredu ar y cyd a pherthynas hirdymor o ymddiriedaeth rhwng ac o fewn cymunedau, gweithwyr proffesiynol a sefydliadau"** (Stansfield et al., 2020).



# 10. Dull hirdymor

Pwysleisiodd y rhan fwyaf o adolygiadau bwysigrwydd meddwl a chynllunio hirdymor ynghylch prosiectau, cydweithrediadau, perthnasoedd a chyllid (Harden et al., 2015; Stansfield et al., 2020). Ystyriwyd ei bod yn arbennig o hanfodol mabwysiadu dull hirdymor o ddatblygu cynlluniau cyffredin rhwng asiantaethau. Mae angen rhannu a chyfathrebu strategaeth ar y cyd hirdymor rhwng asiantaethau a chymunedau, gan alinio agendâu gwahanol asiantaethau:

**"Peidiwch â gwneud yn fach o'r amser sydd ei angen. Heb hyn, mae tuedd i ddychwelyd at ymateb gwasanaeth yn hytrach nag ymateb newid"** (Cyfwelai 8, Stansfield et al., 2020)

Yn eu gwerthusiad o'r 'Fargen Newydd ar gyfer Cymunedau', mae Lawless et al. (2007), yn awgrymu ei bod hi'n hawdd tanamcangyfrif yr amser a'r costau sydd ynghlwm wrth sefydlu partneriaethau cymunedol cadarn sy'n meithrin gallu. O edrych yn ôl, maent yn awgrymu y dylid bod wedi gweithredu 'blwyddyn sero' i ganiatáu mwy o amser i sefydlu gweithdrefnau gweithio, ymgysylltu ag asiantaethau a chymunedau, a dyfeisio rhaglenni tymor hwy.

Yn adolygiad Harden et al. (2015) o ffactorau sy'n effeithio ar ymgysylltu â'r gymuned, nodwyd bod buddsoddi amser i feithrin ymddiriedaeth yn hollbwysig, yn enwedig lle'r oedd gan gymunedau berthynas anodd neu wrthdaro ag asiantaethau eraill yn y gorffennol.



# Modelau cydweithredu sy'n cefnogi gweithredu cymunedol

Yn dilyn ymlaen o'r deg ffactor a nodwyd gennym i gefnogi cydweithredu amlsector ar gyfer gweithredu cymunedol, fe wnaethom ddarganfod ystod o fodelau a oedd yn integreiddio'r ffactorau hyn i ddulliau sydd wedi cael eu rhoi ar brawf mewn lleoliadau ardal leol a chymdogaeth.

Roedd rhai o'r cyfeiriadau a ddadansoddwyd gennym ar gyfer yr adolygiad hwn o dystiolaeth yn archwilio modelau a dulliau cydweithredu amrywiol ar lefel gysyniadol (Arnold et al., 2018; Bagnall et al., 2020; Bagnall et al., 2023; Pollard et al., 2021), tra bu eraill yn archwilio gweithrediad ymarferol y dulliau hyn, yn enwedig trwy astudiaethau achos manwl (Cymdeithas Llywodraeth Leol, 2022; Wilkes, 2015). Roedd adolygiadau eraill hefyd yn mapio neu'n categoreiddio ymyriadau a dulliau – er enghraifft, 'teulu' Iechyd Cyhoeddus Lloegr o ddulliau a amlinellir isod – unwaith eto yn dangos amrywiaeth yr opsiynau. Mae adroddiad Health as a Social Movement yn canolbwyntio ar weithredu cymdeithasol (Arnold et al., 2018) ac yn amlygu amrywiol ddulliau gweithredu sy'n cefnogi gweithredu cymunedol ar lefel leol, gan gynnwys cefnogaeth gan gymheiriaid, eiriolaeth, perchnogaeth asedau cymunedol, a chyfeillio. O'r rhain, gellid ystyried bod perchnogaeth asedau cymunedol yn fodel o gydweithredu amlsector – mae'r lleill yn fodelau sy'n cefnogi gweithredu cymunedol ac yn cael eu cefnogi eu hunain gan gydweithredu amlsector.

Trafodwyd dulliau cydgynhyrchu yn aml fel dull ar gyfer datblygu a chyflawni prosiectau cymunedol ar y cyd ac fel egwyddor sylfaenol (Bagnall et al., 2020; Bagnall et al., 2023; Cymdeithas Llywodraeth Leol, 2022; Wallace, 2013).

I grynhoi, canfuom fod amrywiaeth o ddulliau cydweithredol yn cael eu defnyddio'n ymarferol, ac ni ellir cymhwyso unrhyw un yn uniongyrchol 'oddi ar y silff'. Pwysleisiwyd pwysigrwydd datblygu ac addasu modelau yn lleol mewn sawl cyhoeddiad (Alderwick et al., 2021; Arnold et al., 2018; Cameron et al., 2015; Wilkes, 2015).

Roedd y cyfeiriadau a ddadansoddwyd gennym ar gyfer yr adolygiad hwn yn cadarnhau canfyddiadau bras fframwaith ymgysylltu cymunedol Iechyd Cyhoeddus Lloegr a GIG Lloegr - y 'teulu o ddulliau gweithredu sy'n canolbwyntio ar y gymuned' (PHE & NHSE, 2015). Mae'r fframwaith hwn yn amlinellu ystod eang o opsiynau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer gweithio gyda chymunedau. Cafodd modelau cydweithredu sy'n integreiddio rhai neu bob un o'r deg ffactor uchod i ddulliau penodol o gefnogi gweithredu cymunedol eu categoreiddio i bedwar categori:

- Cryfhau cymunedau
- Cydweithrediadau a phartneriaethau
- Rolau gwirfoddolwyr a chymheiriaid
- Mynediad at adnoddau cymunedol

Yn ymarferol, mae llawer o fodelau cydweithredu effeithiol yn perthyn i fwy nag un o'r categorïau hyn, gan mai defnyddio dull amlochrog yn aml yw'r ffordd fwyaf effeithiol o roi newid ar waith, yn enwedig ar lefel lle neu system.

## Cryfhau cymunedau

### Mae dulliau gweithredu yn cynnwys meithrin galluoedd cymunedol a gweithredu ar y cyd cynaliadwy ar iechyd a phenderfynyddion cymdeithasol iechyd.

Nod y grŵp hwn o ddulliau yw tynnu ar allu cymunedol ar gyfer gweithredu ar y cyd a'i gryfhau. Gellir defnyddio'r dulliau hyn ar lefel cymdogaeth i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a gellir eu defnyddio hefyd yn fwy penodol i ymgysylltu â chymunedau sy'n profi effeithiau allgáu cymdeithasol.

Mae'r modelau a nodir yn yr adolygiad hwn sy'n perthyn i'r categori 'Cryfhau cymunedau' yn cynnwys:

- Datblygu Cymunedol ar Sail Asedau (Lloyd a Randle, 2020; Lloyd & Reynolds, 2020; Pollard a Hashmi, 2023; Pollard et al., 2021): Mae dulliau sy'n seiliedig ar asedau wedi'u seilio ar athroniaeth sy'n canolbwyntio ar gryfderau a galluoedd unigol a chymunedol fel sail ar gyfer gwella iechyd a lles. Mae'r broses o nodi rhestr o asedau (mapio asedau) yn sylfaen ar gyfer cynllunio a datblygu gweithredu cymdeithasol i wella iechyd a lles. Mae datblygu cymunedol seiliedig ar asedau (ABCD) yn fethodoleg benodol a ddechreuodd yn Unol Daleithiau America ac sy'n canolbwyntio ar greu newid cymdeithasol trwy nodi ac adeiladu asedau o fewn cymuned. Gall asedau gynnwys gwasanaethau lleol, cymdeithasau cymunedol, grwpiau a rhwydweithiau anffurfiol, yn ogystal â sgiliau, gwybodaeth ac ymrwymiad trigolion.

- Datblygu cymunedol (Bagnall et al., 2023): Diffinnir hyn fel 'proses hirdymor seiliedig ar werth sy'n anelu at fynd i'r afael ag anghydbwysedd mewn grym a sicrhau newid sy'n seiliedig ar gyfiawnder cymdeithasol, cydraddoldeb a chynhwysiant'[1]. Mae cymunedau'n nodi materion ac yn pennu camau gweithredu ar y cyd i adeiladu cymunedau iach, cynaliadwy a thecach.

- Trefnwyr cymunedol (Cameron et al., 2015; Kadariya et al., 2023; Parsfield et al., 2015): Mae trefnwyr cymunedol yn gwrando ar yr hyn y mae pobl yn dweud eu bod am ei newid yn eu bywydau a'u cymunedau ac maent yn gweithio gyda strwythurau democrataidd i'w helpu i gyflawni hyn. Mae trefnu cymunedol yn golygu meithrin perthnasoedd mewn cymunedau, ysgogi pobl i weithredu, a chefnogi prosiectau sy'n gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl (Cameron et al., 2015). Yn nodweddiadol, caiff preswylwyr eu hyfforddi a'u talu fel trefnwyr cymunedol.

- Cymunedau Cysylltiedig: Dull seiliedig ar gynhyrchu rhwydweithiau cymdeithasol i ddechrau trwy ymchwil yn y gymuned (Parsfield et al., 2015). Mae cysyniadau ABCD, cydgynhyrchu a chynaliadwyedd yn sail i ddull cymunedau cysylltiedig. Mae'n cynnwys chwe cham: hyfforddi ymchwilwyr cymunedol; cynnal arolwg o drigolion; dadansoddi rhwydwaith cymdeithasol a lles; ad-dalu cymunedol; cyd-gynhyrchu prosiect ymyrraeth; gwerthuso a chynaliadwyedd.

1 Federation for Community Development Learning. A summary of the 2009 Community Development Occupational Standards. Sheffield: FCDL; 2009.

- Cyllid uniongyrchol i gefnogi gweithredu a arweinir gan breswylwyr – er enghraifft, Big Local (Baker et al., 2022): Roedd Big Local yn rhaglen ariannu a arweiniwyd gan breswylwyr a ddarparodd £1.15 miliwn yr un i 150 o ardaloedd yn Lloegr i'w gwario dros 10-15 mlynedd i greu newid parhaol yn eu cymdogaethau. Roedd gan bob ardal Big Local bartneriaeth Big Local yn cynnwys o leiaf wyth o bobl, yn arwain cyfeiriad cyffredinol yr ardal trwy gynhyrchu cynllun gweithredu i'w rannu a'i ddefnyddio i gynnwys pobl eraill. Gweithiodd y bartneriaeth gydag un neu fwy o sefydliadau dibynadwy lleol i weinyddu a rhoi cyfrif am gyllid a/neu ddarparu gweithgareddau a gwasanaethau. Roedd y meini prawf ar gyfer perthnasoedd effeithiol mewn ardaloedd Big Local yn cynnwys gwybodaeth a dealltwriaeth, ymddiriedaeth a pharch y naill tuag at y llall, iaith gyffredin a nodau cyffredin, rolau diffiniedig ond parodrwydd i fod yn hyblyg, a'r gallu a'r adnoddau i ddilyn camau gweithredu a phenderfyniadau y cytunwyd arnynt drwodd i'r pen.

- Rhwydweithiau cymdogaethau (Dayson et al., 2022): A hwythau'n fodel gwirfoddoli anffurfiol, mae rhwydweithiau cymdogaethau yn gynlluniau cymunedol sy'n cael eu rhedeg gan ac ar gyfer pobl hŷn. Maent yn cynnig ystod o weithgareddau a gwasanaethau gyda'r nod o fynd i'r afael â phenderfynyddion cymdeithasol iechyd, hybu annibyniaeth, cyfranogiad cymunedol, a lles.



# Rolau gwirfoddolwyr a chymheiriaid

## Mae dulliau yn canolbwyntio ar wella gallu unigolion i ymgymryd â rolau iechyd.

Mae’r categori hwn o ddulliau yn canolbwyntio ar wella galluoedd unigolion i ddarparu cyngor, gwybodaeth a chymorth, ac i drefnu gweithgareddau sy’n ymwneud ag iechyd a lles yn eu cymunedau eu hunain neu gymunedau eraill, mewn rôl nad yw’n broffesiynol ac yn ddi-dâl fel arfer. Mae pobl fel arfer yn cael eu tynnu o'r gymuned y maent yn gweithio ynddi ac yn derbyn hyfforddiant a chefnogaeth. Maent yn defnyddio eu profiad bywyd, eu hymwybyddiaeth ddiwylliannol a’u cysylltiadau cymdeithasol eu hunain i gysylltu a chyfathrebu ag aelodau eraill o'r gymuned mewn ffordd sy'n ddealladwy, gan gyrraedd y rhai nad ydynt mewn cysylltiad â gwasanaethau proffesiynol neu sy’n gwrthwynebu’r negeseuon hynny.

Mae modelau penodol a nodwyd yn yr adolygiad hwn sy’n dod o fewn y categori ‘Rolau gwirfoddolwyr a chymheiriaid’ yn cynnwys:

- Hyrwyddwyr iechyd neu gymunedol (Harden et al., 2015; South et al., 2021; Bagnall et al., 2021; Terry, 2017; Wallace, 2013) – mae’r gwirfoddolwyr hyn yn tynnu ar eu gwybodaeth leol a’u profiad bywyd i gymell a chefnogi teulu, ffrindiau, cymdogion a chydweithwyr i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol iach, a sefydlu grwpiau i ddiwallu anghenion lleol. Mae hyrwyddwyr yn chwarae rhan bwysig yn y gweithlu iechyd cyhoeddus ehangach yn Lloegr, a defnyddiwyd y model sefydledig hwn yn ystod y pandemig i hwyluso rhannu gwybodaeth rhwng cymunedau ymylol a thimau iechyd y cyhoedd (South et al., 2021).

Er nad yw’n fodel penodol, mae sawl cyhoeddiad hefyd yn ystyried bod gwirfoddoli – anffurfiol a ffurfiol – yn rhan o weithredu cymdeithasol (Arnold et al., 2018; Jopling & Jones, 2018; Terry, 2017).



# Cydweithrediadau a phartneriaethau

**Mae dulliau gweithredu yn golygu bod cymunedau a gwasanaethau lleol yn cydweithio ar unrhyw gam o'r cylch cynllunio, o nodi anghenion hyd at weithredu a gwerthuso.**

Mae'r categori hwn o ddulliau yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth rhwng gwasanaethau lleol a chymunedau i wella cynllunio a gwneud penderfyniadau ar unrhyw gam o'r cylch cynllunio. Y cynsail yw y bydd cynnwys cymunedau wrth asesu, dylunio a datblygu atebion yn arwain at wasanaethau a rhaglenni iechyd sy'n cyfateb yn well i anghenion. Gall cydbwysedd pŵer ar draws y cydweithrediadau amrywio o brosesau ymgynghori â lefel isel o reolaeth gymunedol i bartneriaethau cynaliadwy hirdymor gyda rheolaeth gymunedol gynyddol. Mae'r dulliau hyn yn cynnwys meithrin gallu i ddatblygu sgiliau, gwybodaeth, ac arweinyddiaeth gymunedol, newid sefydliadol, a gweithwyr proffesiynol sy'n ymroddedig i rannu pŵer, gyda'r sgiliau perthnasol i weithio mewn ffyrdd cynhwysol, grymusol a hwylusol.

Mae modelau a nodir yn yr adolygiad hwn sy'n disgyn i gategori 'Cydweithrediadau a phartneriaethau' yn cynnwys:

- Adfywio/dylunio cymdogaethau (Bagnall et al., 2020; Bagnall et al., 2023; Locality & Power to Change, 2022; Wallace, 2013) – Gall adfywio cymdogaethau gynnwys adfywio ystadau tai, canol trefi, ac ardaloedd diwydiannol neu fasnachol. Mae dyluniad cymdogaeth yn cyfeirio at raddfa, ffurf, neu swyddogaeth adeiladau neu fannau agored. Gall dylunio cymdogaethau da chwarae rhan hanfodol wrth hyrwyddo cydlyniad trwy ddarparu mannau cyhoeddus sy'n gyfforddus ac yn ddeniadol i bobl leol.

- Cyllidebu cyfranogol (Lloyd & Randle, 2020; Locality et al., 2022; Pollard et al., 2021; Wallace, 2013) – ffurf ddatganoledig o wneud penderfyniadau, ar sail lle yn nodweddiadol, lle mae aelodau o'r gymuned a grwpiau cymunedol yn cydweithredu â darparwyr gwasanaethau i ailystyried materion lleol a dyrannu adnoddau. Gall helpu i ddod â chyllid i ardaloedd difreintiedig (Wallace, 2013).

- Cynllunio/dylunio cymunedol ar lefel leol (Bagnall et al., 2023; Cymdeithas Llywodraeth Leol, 2022). Mae'r dull hwn yn seiliedig ar gyd-ddylunio a chyfranogiad cymunedol sylweddol wrth ddatblygu cynlluniau lleol, er enghraifft, mentrau fel Partneriaethau Cynllunio Cymunedol Gogledd Iwerddon (Coutts et al., 2021) a Big Local (Baker et al., 2022; Pollard et al., 2021).

- Trosglwyddo asedau cymunedol (gan gynnwys sefydliadau parciau) (Casey et al., 2020; Pollard et al., 2021; Wallace, 2013) – mae hyn yn golygu trosglwyddo perchnogaeth asedau cyhoeddus neu breifat gynt i grwpiau cymunedol a sector gwirfoddol am lai na gwerth y farchnad i gyflawni buddion cymdeithasol, economaidd neu amgylcheddol lleol.

# Mynediad at adnoddau cymunedol

## Mae dulliau yn canolbwyntio ar gysylltu pobl ag adnoddau a gwybodaeth gymunedol.

Mae'r categori hwn yn canolbwyntio ar gysylltu unigolion a theuluoedd ag adnoddau cymunedol megis gwybodaeth, gwasanaethau, cymorth ymarferol, gweithgareddau grŵp, a chyfleoedd gwirfoddoli i ddiwallu anghenion iechyd a lles. Mae'r dulliau hyn yn tynnu ar asedau'r sector gwirfoddol, cymunedol a mentrau cymdeithasol i sefydlu llwybrau atgyfeirio, lleihau rhwystrau rhag cael mynediad at wasanaethau a chyfranogiad cymdeithasol, a chomisiynu a chydlynu gweithgareddau grŵp.

Mae modelau a nodwyd yn yr adolygiad hwn sy'n disgyn i gategori 'Mynediad at adnoddau cymunedol' yn cynnwys:

- Hybiau/angorau cymunedol (Bagnall et al., 2023; Cymdeithas Llywodraeth Leol, 2022; Locality, 2020; South et al., 2021b). Mae hybiau cymunedol yn ganolfannau cymunedol neu'n sefydliadau angori cymunedol sy'n canolbwyntio ar iechyd a lles, naill ai'n lleol neu'n gweithredu fel rhwydwaith. Mae canolbwyntiau cymunedol fel canolfannau byw'n iach fel arfer yn darparu gweithgareddau a gwasanaethau lluosog sy'n mynd i'r afael â phenderfynyddion ehangach iechyd, y rhan fwyaf ohonynt yn agored i'r gymuned ehangach. Mae sefydliadau angori cymunedol yn endidau amlbwrpas, annibynnol, a arweinir gan y gymuned, sy'n rhoi llais i bobl leol. Mewn ardaloedd o amddifadedd maent yn ased cymunedol hollbwysig ar gyfer mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, gan weithio gyda phobl a chymunedau ymylol, sydd ag incwm isel neu sy'n wynebu rhwystrau eraill rhag iechyd da.

- Mae Banciau Amser (Harden et al., 2015) – sydd hefyd yn dod o dan 'Cryfhau cymunedau' – yn fodel rhwydwaith cymdeithasol a chynhwysedd cymunedol penodol sy'n seiliedig ar yr asedau a'r amser y gall pobl ei rannu fel gwirfoddolwyr. Mae pobl yn cyfnewid gwasanaethau â'i gilydd ar sail 'credydau amser' i ddiwallu anghenion cymdeithasol, iechyd neu les – gan arwain at fwy o gyfalaf cymdeithasol a dysgu ar y cyd. Mae llawer o gynlluniau banc amser llwyddiannus yn y DU yn cynnwys cymunedau difreintiedig neu gymunedau sydd wedi'u hallgáu.

- Cydlynu ardaloedd lleol (Lunt et al., 2021; Tiratelli, 2020) – dull a ddatblygwyd yn y 1980au i gefnogi pobl ag anableddau dysgu yn Awstralia, ac ers hynny mae llawer o awdurdodau lleol yn y DU wedi'i fabwysiadu i gefnogi pobl yr ystyrir eu bod yn agored i niwed. Mae'n cynnig cymorth uniongyrchol i deuluoedd, cyfeirio, a rhwydweithio i wella mynediad at wasanaethau a hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, gan fanteisio ar adnoddau cymunedol a cheisio newid trwy gydweithrediadau lleol ac ailddylunio gwasanaethau.

# Casgliad

Mae'r adolygiad tystiolaeth hwn wedi crynhoi canfyddiadau ymchwil a gyhoeddwyd rhwng 2010 a 2020 ar sut y gall cydweithredu amlsector gefnogi gweithredu cymunedol a chanlyniadau lles cymunedol. Mae'n cyfrannu at brosiect ehangach, sy'n cael ei gydgynhyrchu gan WCPP a'r Bartneriaeth Cymunedau Dyfeisgar, gyda'r nod o ymateb i ddiddordeb ar draws y bartneriaeth mewn penderfynu nid yn unig beth sy'n gwneud cydweithredu cymunedol-sector cyhoeddus yn effeithiol ond sut y gellir ei ddatblygu a'i wella mewn cyd-destunau penodol. Dadansoddodd yr adolygiad hwn 46 o bapurau'n fanwl, gan ganolbwyntio ar ddeall y ffactorau, y mecanweithiau, y dulliau a'r gweithgareddau sy'n hwyluso gwahanol fathau o gydweithredu. Nodwyd deg ffactor i gefnogi cydweithredu amlsector ar gyfer gweithredu cymunedol a chanlyniadau lles:

- Ansawdd perthnasoedd presennol
- Sefydlu neu adeiladu ar bartneriaethau a rhwydweithiau presennol
- Camau i hybu a chefnogi perthnasoedd da
- Adeiladu ymddiriedaeth yn fwriadol
- Cefnogaeth, hyfforddiant a meithrin gallu
- Diwylliant, agweddau ac arferion sefydliadol
- Buddsoddi mewn seilwaith a chynllunio
- Eglurder a thryloywder ynghylch disgwyliadau a chynlluniau
- Gwneud penderfyniadau ar y cyd
- Dull hirdymor

Hefyd, nododd yr adolygiad 14 o fodelau ar wahân o ymagweddau cymunedol at iechyd a lles sy'n cynnwys cydweithredu amlsector. Mae disgrifiadau'r modelau'n awgrymu bod y rhan fwyaf neu bob un o'r deg ffactor yn bresennol ym mhob un, ond i raddau amrywiol. Er enghraifft, mae cymorth, hyfforddiant a meithrin gallu yn flaenoriaethau uchel mewn cydweithrediadau amlsector sy'n cefnogi rolau gwirfoddolwyr a chymheiriaid fel hyrwyddwyr cymunedol, ond yn llai o flaenoriaeth i fentrau fel dylunio cymunedol, lle gellid disgwyl i eglurder a thryloywder ynghylch disgwyliadau a chynlluniau fod yn flaenoriaethau uwch.

# Cyfeiriadau

**Astudiaethau wedi'u cynnwys**


Alderwick H, Hutchings A, Briggs A, Mays N. (2021) **The impacts of collaboration between local health care and non-health care organizations and factors shaping how they work: A systematic review of reviews.** *BMC Public Health*, 21(753).

Arnold S, Coote A, Harrison T, Scurrah E, Stephens L. (2018) **Health as a social movement: Theory into practice.** Adroddiad rhaglen. Llundain: RSA and New Economics Foundation.

Bagnall AM, Gamsu M, Trigwell J, Freeman C, Rippon S, Knight M, et al. (2020) **Community-based support: research and evidence reviews. Evidence reviews of policy and commissioning context and community-based approaches.** Leeds: Prifysgol Leeds Beckett.

Bagnall AM, Kinsella K, Trigwell J, South J, Sheridan K, Harden A. (2015) **Community engagement – approaches to improve health: Map of current practice based on a case study approach.** Leeds: Prifysgol Leeds Beckett

Bagnall AM, Southby K, Jones R, Pennington A, South J, Corcoran R. (2023) **Systematic review of community infrastructure (place and space) to boost social relations and community wellbeing: Five year refresh.** Llundain: What Works Centre for Wellbeing.

Bagnall AM, Trigwell J, Freeman C, Rippon S, Gamsu M, South J. (2020) **Community-based support: research and evidence reviews. Evidence review of community-centred mechanisms operating in community based approaches for older people.** Leeds: Prifysgol Leeds Beckett.

Baker L, Jochum V, Garforth H, Usher R. (2022) **Big Local relationships with public agencies: Research report.** Llundain: Local Trust.

Brotchie J. (2013) **The enabling state: From rhetoric to reality. Case studies of contemporary practice.** Dunfermline: Ymddiriedolaeth Carnegie UK.

Cameron D, Rennick K, Maguire R, Freeman A. (2015) **Evaluation of the Community Organisers programme.** Llundain: Ipsos MORI.

Casey A, Gregor T, Reynolds E. (2020) **How to set up a parks foundation.** Llundain: Y Gronfa Loteri Fawr, Cronfa Treftadaeth y Loteri a Nesta.

Community Health Exchange. (2012) **Healthy influences: community-led health organisations' influence in health and social planning structures.** Glasgow: Community Health Exchange.

Coutts P, Ormston H, Wallace J, McCloskey M, McMurray A, Stone M, et al. (2021) **Working Together for Wellbeing: The report of the Northern Ireland Embedding Wellbeing in Local Government Programme.** Adroddiad Llawn. Dunfermline: Carnegie UK.

Dayson C, Gilbertson J, Chambers J, Ellis-Paine A, Kara H. (2022) **How community organisations contribute to healthy ageing. Evidence from the evaluation of the Leeds Neighbourhood Networks.** Llundain: Centre for Ageing Better.

Durie R, Wyatt K. (2013). **Connecting communities and complexity: a case study in creating the conditions for transformational change.** *Critical Public Health*, 23(2): 174-187.

Durie R, Wyatt K, Stuteley H. (2004) **Community Regeneration and Complexity. Yn Kernick, D. (gol). Complexity and Healthcare Organisations: A View from the Street.** Rhydychen: Radcliffe Medical Press 2014.

Fountain J, Hicks J. (2010) **Delivering race equality in mental health care: report on the findings and outcomes of the community engagement programme 2005-2008.** Swydd Gaerhirfryn: Ysgol Ryngwladol Cymunedau, Hawliau a Chynhwysiant (ISCRI), Prifysgol Canolbarth Swydd Gaerhirfryn.

Gilchrist A. (2016) **Blending, braiding and balancing: combining formal and informal modes for social action: Papur briffio 136.** Birmingham: Canolfan Ymchwil y Trydydd Sector, Prifysgol Birmingham.

Harden A, Sheridan K, McKeown A, Dan-Ogosi I, Bagnall AM. (2015) R**eview 5: Evidence review of barriers to, and facilitators of, community engagement approaches and practices in the UK.** Llundain: Sefydliad Iechyd a Datblygiad Dynol, Prifysgol Dwyrain Llundain.

Hatzidimitriadou E, Mantovani N, Keating F. (2012) **Evaluation of co-production processes in a community-based mental health project in Wandsworth.** Llundain: Sefydliad Tavistock a Chonsortiwm Bridge.

Jopling K, Jones D. (2018) **Age-friendly and inclusive volunteering: Review of community contributions in later life.** Llundain: Centre for Ageing Better.

Kadariya S, Ball L, Chua D, Ryding H, Hobby J, Marsh J, et al. (2023) **Community organising frameworks, models, and processes to improve health: A systematic scoping review.** *International Journal of Environmental Research and Public Health*. 20(7): 5341.

Lawless P, Dickinson S, Fordham G, Fuller C, Meegan R, Wells P. (2007) **NDC National Evaluation Phase 2: The six case studies - an introduction.** Sheffield: Canolfan Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol Ranbarthol:

Lloyd J, Randle A. (2020) **Introducing new operating models for local government.** Llundain: Nesta.

Lloyd J, Reynolds E. (2020) **Asset-based community development for local authorities: How to rebuild relationships with communities through asset-based approaches.** Llundain: Nesta.

Cymdeithas Llywodraeth Leol (LGA). (2022) **The state of strategic relationships between councils and their voluntary and community sector.** Llundain: Cymdeithas Llywodraeth Leol (LGA).

Locality. (2020) **Keep it Local: How local government can plug into the power of community.** Llundain: Locality.

Locality, Local Trust, Power to Change. (2022) **Power partnerships: Learning on localism with four local authorities.** Llundain: Locality.

Locality, Power to Change. (2022) **Power of community on the coast: Findings from action research on the role of community organisations in coastal communities.** Llundain: Locality.

Locality, Power to Change, VCSE Health and Wellbeing Alliance. (2023) **Going further together: The role of VCSE organisations in neighbourhood health ecosystems.** Llundain: Locality.

Lunt N, Bainbridge L, Rippon S. (2021) **Strengths, assets and place – The emergence of Local Area Coordination initiatives in England and Wales.** *Journal of Social Work*. 21(5):1041-64.

New Economics Foundation, People's Health Trust. (2022) E**valuating the impact of Local Conversations 2016 – 2021.** Llundain: New Economics Foundation and People's Health Trust.

Parsfield M, Morris D, Bola M, Knapp M, Park AL, Yoshioka M, et al. (2015) **Community capital: The value of connected communities.** Llundain: RSA Action and Research Centre.

People's Health Trust, New Economics Foundation, Prifysgol Leeds Beckett. (2020) **Local People programme evaluation: A summary.** Llundain: People's Health Trust.

Pollard G, Hashmi I. (2023) **Designing out the most severe forms of hardship in local areas: A learning report.** Llundain ac Efrog: New Local a Sefydliad Joseph Rowntree.

Pollard G, Studdert J, Tiratelli L. (2021) **Community power: The evidence.** Llundain: New Local.

Iechyd Cyhoeddus Lloegr, GIG Lloegr. (2015) **A guide to community-centred approaches for health and wellbeing: Full Report.** Llundain: Iechyd Cyhoeddus Lloegr a GIG Lloegr.

Ragoonanan L, Jones D, Goulden H, Bennellick D, Mizon E. (2016) **Learning to rethink parks.** Llundain: Nesta, Cronfa Treftadaeth y Loteri a'r Gronfa Loteri Fawr.

Robinson N, Lorenc AR. (2010) **Strengthening the public voice in shaping sexual and reproductive health services – Changing relationships.** Llundain: London Sexual Health Programme.

South J, Bagnall AM, Jones R, Passey A, Woodall J, Gledhill R, et al. (2021a) **Community champions A rapid scoping review of community champion approaches for the pandemic response and recovery.** Llundain: Iechyd Cyhoeddus Lloegr.

South J, Southby K, Freeman C, Bagnall AM, Pennington A, Corcoran R. (2021b) **Community wellbeing case study synthesis. Technical Report.** Llundain: What Works Centre for Wellbeing.

Stansfield J, South J, Mapplethorpe T. (2020) **What are the elements of a whole system approach to community-centred public health? A qualitative study with public health leaders in England's local authority areas.** *BMJ Open*. 10:e036044.

Terry L. (2017) **Producing the goods: Collaboration as the next frontier of productivity.** Llundain: New Local Government Network.

Tiratelli L. (2020) **Community mobilisation: Unlocking the potential of community power.** Llundain: New Local.

Wallace J. (2013) **The rise of the enabling state: A review of policy and evidence across the UK and Ireland.** Dunfermline: Ymddiriedolaeth Carnegie UK.

Wilkes L. (2015) **A design for life: How councils and housing associations can collaborate for impact.** Llundain: New Local Government Network.

Windle K, Wagland R, D'Amico F, Janssen D, Forder J, Wistow G. (2009) **National Evaluation of Partnerships for Older People Projects: Final Report.** Caergaint: Uned Ymchwil Gwasanaethau Cymdeithasol Personol (PSSRU), Prifysgol Caint.

# Atodiad A: Dulliau adolygu

## Cwestiynau adolygu

1. Beth yw'r ffactorau sy'n helpu gyda **datblygu a sefydlu** cydweithredu amlsector sy'n cynnwys y sectorau cymunedol a/neu gyhoeddus i gefnogi gweithredu cymunedol a chanlyniadau lles cymunedol?

2. Beth yw'r ffactorau sy'n effeithio ar **gyflawni a gweithredu** cydweithredu amlsector sy'n cynnwys y sectorau cymunedol a/neu gyhoeddus i gefnogi gweithredu cymunedol a chanlyniadau lles?

3. Beth yw'r ffactorau sy'n helpu i **gynnal** cydweithredu amlsector sy'n cynnwys y sectorau cymunedol a/neu gyhoeddus i gefnogi gweithredu cymunedol a chanlyniadau lles?

4. Beth mae'r dystiolaeth yn ei ddweud wrthym am **oresgyn heriau neu rwystrau** rhag cydweithredu amlsector sy'n cynnwys sectorau cymunedol a/neu gyhoeddus i gefnogi gweithredu cymunedol a chanlyniadau lles?

5. Beth mae'r dystiolaeth yn ei ddweud wrthym am **effaith** cydweithredu amlsector sy'n cynnwys y sectorau cymunedol a/neu gyhoeddus i gefnogi gweithredu cymunedol a chanlyniadau lles?

## Strategaeth chwilio

1. Tynnu ar dystiolaeth wedi'i chyfuno mewn adolygiadau perthnasol sy'n bodoli eisoes – y rhai yr ydym eisoes yn gwybod amdanynt a'r rhai a godwyd mewn chwiliadau cronfeydd data electronig.

2. Tyrchu astudiaethau sylfaenol o adolygiadau presennol i gael mwy o fanylion.

3. Chwiliad cronfeydd data electronig – chwiliwyd chwe chronfa ddata electronig (PsycInfo, MEDLINE, CINAHL, Social Policy and Practice (yn cynnwys Social Care Online ac Idox), SCOPUS, Academic Search Complete). Gweler Atodiad A am y strategaeth chwilio.

4. Chwilio gwefannau allweddol am lenyddiaeth lwyd berthnasol (gweler Atodiad B).

## Meini prawf cynnwys

**Lleoliad:** Sefydliadau cymunedol a sector cyhoeddus

**Ffenomen o Ddiddordeb:** Ffactorau/mecanweithiau/dulliau/gweithgareddau sy'n hwyluso perthnasoedd, partneriaethau, clymbleidiau, cynghreiriau, mentrau cydweithredol, rhwydweithiau, comisiynu, platfformau/isadeileddau cydgymorth, ffyrdd cyffredin eraill o weithio rhwng sectorau gyda'r bwriad o gefnogi gweithredu cymunedol/ lefelau uwch o gyfranogiad cymunedol.

**Dyluniad:** Gwerthusiadau proses neu gyhoeddiadau eraill sy'n adrodd canfyddiadau ymchwil am ddatblygu neu weithredu partneriaethau neu ffyrdd cyffredin eraill o weithio; dyluniadau astudiaethau achos gyda safleoedd a/neu bwyntiau amser lluosog; adolygiadau o dystiolaeth.

**Gwerthusiad:** Gweithredu cymunedol/ cydgymorth neu ddeilliannau lles cymunedol

**Dyddiad:** Y 10 mlynedd diwethaf (2013-2023)

## Meini prawf hepgor

**Lleoliad: gwasanaethau iechyd; lleoliadau nad ydynt yn y gymuned e.e., gweithle, addysg uwch;**

**Ffenomen o Ddiddordeb:** partneriaethau a strwythurau cydweithredol eraill nad oes ganddynt fwriad i gefnogi gweithredu cymunedol neu nad oes ganddynt unrhyw/fawr ddim o gyfranogiad cymunedol mewn dylunio neu weithredu.

Dyluniad: astudiaethau nad ydynt yn adrodd canfyddiadau am ffactorau/prosesau i gefnogi gweithredu cymunedol; astudiaethau achos disgrifiadol.

## Dewis astudiaethau

Cafodd adolygiadau ac astudiaethau sylfaenol eu sgrinio yn erbyn y meini prawf cynhwysiant gan ddau adolygydd yn gweithio'n annibynnol. Cafodd anghytundebau eu datrys trwy drafod gyda'r tîm ehangach.

# Echdynnu data

Tynnwyd data o blith adolygiadau ac astudiaethau sylfaenol gan un adolygydd i dempledi Word safonedig, wedi'u peilota, a wnaeth gynnwys y meysydd canlynol: Manylion llyfryddol; Gwlad / rhanbarth / lle; dylunio a dulliau'r astudiaeth; Model/dull (os yw'n berthnasol); Gweithredu cymunedol a gefnogwyd; Y sectorau dan sylw; Ffactorau sy'n bwysig i lwyddiant; Deilliannau o ran gweithredu cymunedol a/neu les cymunedol; Ffactorau sy'n rhwystro llwyddiant; Dysgu penodol/myfyrdod ar ffyrdd o gydweithio; Dysgu penodol ar beth i'w wneud pan aiff pethau o chwith; Unrhyw argymhellion, gwersi neu fframweithiau perthnasol eraill.

# Syntheseiddio data

Roedd sawl cylch o drafod wedi llywio synthesis naratif a oedd yn canolbwyntio ar grwpio'r ffactorau a'r modelau yn gategorïau thematig.

# Strategaeth chwilio fanwl

**EBSCO (PsycInfo; MEDLINE; Academic Search Complete)**

***A. Cydweithrediad***

partnership OR alliance OR cooperat* OR collaborat* OR coalition OR network OR “social infrastructure” OR “joint working” OR “joint-working” OR “place based” OR “place-based” OR relation* OR co-production OR coproduction OR coordinat* OR co-ordinat* OR coalition

***B. Sector gwirfoddol/cymunedol***

“voluntary sector” OR VCS* OR third sector OR “voluntary organisation” OR charit* OR “social enterprise” OR “community enterprise” OR “community business” OR “neighbourhood organisation” OR “community improve*” OR “not-for-profit” OR “non-profit” OR “co-operative” OR “cooperative” OR “social entrepreneur” OR “community interest company” OR “company limited by guarantee” OR “social business” OR “social firm” OR “affirmative business” OR “micro-enterprise*” OR “social interest company” OR “social business” OR “community interest corporation” OR “social interest company” OR “social interest corporation” OR “benefit society” OR “community anchor” OR “community hub” OR “mutual aid” OR ((community N2 (manag* OR run OR own* OR control* OR driven OR orient*))

***C. Sectorau eraill***

((local OR city OR regional OR town OR parish OR municip* OR state) N2 (government OR council OR authority OR government OR board)) OR “public service”

### *D. Gweithredu cymunedol*

((community OR social OR neighbourhood OR collective) N2 (action OR activism OR activist OR power OR empowerment OR leader* OR organising OR resilience OR control OR resourcefulness OR engagement OR mobilis*)) OR “social networks” OR “collective action” OR neighbourliness OR “social infrastructure” OR “mutual aid”

### *E. Lles cymunedol*

“well-being” OR wellbeing OR “quality of life” OR happiness OR satisfaction OR (positive N3 “mental health”) OR wellness OR health* OR “physical welfare” OR “purpose in life” OR flourish* OR prosper* OR resilien* OR contentment OR “self-esteem” OR “overall health” OR belonging OR fulfil* OR capabilit* OR salutogen* OR eudaimon* OR eudaemon* OR eudemon* OR trust* OR thriv* OR vibran* OR “sense of community” OR “sense of belonging” OR empower* OR liveability OR livability OR sustainab*

### *F. Cysylltiadau cymdeithasol*

((Soci* OR community OR neighbour* OR public OR cultural) N3 (relation* OR cohesion OR capital OR inclusion OR inclusive OR interaction* OR network* OR connect* OR interconnect* OR bond* OR tie* OR support OR integration OR participation OR engag* OR exclu* OR isolat* OR marginali* OR disengag* OR fragment* OR disconnect* OR integration OR “capacity building” OR trust OR autonomy OR “positive relations” OR involvement OR loneliness)) OR “interpersonal relation*” OR connectedness OR “quality of relations” OR friend* OR companion* OR “close relationship*” OR “social routine” OR reciprocity

### *G. Adolygu*

Review OR synthesis OR meta-analysis OR scoping OR mapping

## Polisi ac ymarfer cymdeithasol

### *A. Cydweithrediad*

partnership OR alliance OR cooperat* OR collaborat* OR coalition OR network OR “social infrastructure” OR “joint working” OR “joint-working” OR “place based” OR “place-based” OR relation* OR co-production OR coproduction OR coordinat* OR co-ordinat* OR coalition

### *B. Sector gwirfoddol/cymunedol*

“voluntary sector” OR VCS* OR third sector OR “voluntary organisation” OR charit* OR “social enterprise” OR “community enterprise” OR “community business” OR “neighbourhood organisation” OR “community improve*” OR “not-for-profit” OR “non-profit” OR “co-operative” OR “cooperative” OR “social entrepreneur” OR “community interest company” OR “company limited by guarantee” OR “social business” OR “social firm” OR “affirmative business” OR “micro-enterprise*” OR “social interest company” OR “social business” OR “community interest corporation” OR “social interest company” OR “social interest corporation” OR “benefit society” OR “community anchor” OR “community hub” OR “mutual aid” OR (community ADJ2 (manag* OR run OR own* OR control* OR driven OR orient*))

### *C. Sectorau eraill*

((local OR city OR regional OR town OR parish OR municip* OR state) AND (government OR council OR authority OR government OR board)) OR "public service"

### *D. Gweithredu cymunedol*

((community OR social OR neighbourhood OR collective) AND (action OR activism OR activist OR power OR empowerment OR leader* OR organising OR resilience OR control OR resourcefulness OR engagement OR mobilis*)) OR "social networks" OR "collective action" OR neighbourliness OR "social infrastructure" OR "mutual aid"

### *E. Lles cymunedol*

"well-being" OR wellbeing OR "quality of life" OR happiness OR satisfaction OR (positive AND "mental health") OR wellness OR health* OR "physical welfare" OR "purpose in life" OR flourish* OR prosper* OR resilien* OR contentment OR "self-esteem" OR "overall health" OR belonging OR fulfil* OR capabilit* OR salutogen* OR eudaimon* OR eudaemon* OR eudemon* OR trust* OR thriv* OR vibran* OR "sense of community" OR "sense of belonging" OR empower* OR liveability OR livability OR sustainab*

### *F. Cysylltiadau cymdeithasol*

((Soci* OR community OR neighbour* OR public OR cultural) AND (relation* OR cohesion OR capital OR inclusion OR inclusive OR interaction* OR network* OR connect* OR interconnect* OR bond* OR tie* OR support OR integration OR participation OR engag* OR exclu* OR isolat* OR marginali* OR disengag* OR fragment* OR disconnect* OR integration OR "capacity building" OR trust OR autonomy OR "positive relations" OR involvement OR loneliness)) OR "interpersonal relation*" OR connectedness OR "quality of relations" OR friend* OR companion* OR "close relationship*" OR "social routine" OR reciprocity

### *G. Adolygu*

Review OR synthesis OR meta-analysis OR scoping OR mapping

## SCOPUS

### *A. Cydweithrediad*

partnership OR alliance OR cooperat* OR collaborat* OR coalition OR network OR "social infrastructure" OR "joint working" OR "joint-working" OR "place based" OR "place-based" OR relation* OR co-production OR coproduction OR coordinat* OR co-ordinat* OR coalition

### *B. Sector gwirfoddol/cymunedol*

"voluntary sector" OR VCS* OR third sector OR "voluntary organisation" OR charit* OR "social enterprise" OR "community enterprise" OR "community business" OR "neighbourhood organisation" OR "community improve*" OR "not-for-profit" OR "non-profit" OR "co-operative" OR "cooperative" OR "social entrepreneur" OR "community interest company" OR "company limited by guarantee" OR "social business" OR "social firm" OR "affirmative business" OR "micro-enterprise*" OR "social interest company" OR "social business" OR "community interest corporation" OR "social interest company" OR "social interest corporation" OR "benefit society" OR "community anchor" OR "community hub" OR "mutual aid" OR (community w/2 (manag* OR run OR own* OR control* OR driven OR orient*))

### *C. Sectorau eraill*

((local OR city OR regional OR town OR parish OR municip* OR state) w/2 (government OR council OR authority OR government OR board)) OR "public service"

### *D. Gweithredu cymunedol*

((community OR social OR neighbourhood OR collective) w/2 (action OR activism OR activist OR power OR empowerment OR leader* OR organising OR resilience OR control OR resourcefulness OR engagement OR mobilis*)) OR "social networks" OR "collective action" OR neighbourliness OR "social infrastructure" OR "mutual aid"

### *E. Lles cymunedol*

"well-being" OR wellbeing OR "quality of life" OR happiness OR satisfaction OR (positive w/2 "mental health") OR wellness OR health* OR "physical welfare" OR "purpose in life" OR flourish* OR prosper* OR resilien* OR contentment OR "self-esteem" OR "overall health" OR belonging OR fulfil* OR capabilit* OR salutogen* OR eudaimon* OR eudaemon* OR eudemon* OR trust* OR thriv* OR vibran* OR "sense of community" OR "sense of belonging" OR empower* OR liveability OR livability OR sustainab*

### *F. Cysylltiadau cymdeithasol*

((Soci* OR community OR neighbour* OR public OR cultural) w/2 (relation* OR cohesion OR capital OR inclusion OR inclusive OR interaction* OR network* OR connect* OR interconnect* OR bond* OR tie* OR support OR integration OR participation OR engag* OR exclu* OR isolat* OR marginali* OR disengag* OR fragment* OR disconnect* OR integration OR "capacity building" OR trust OR autonomy OR "positive relations" OR involvement OR loneliness)) OR "interpersonal relation*" OR connectedness OR "quality of relations" OR friend* OR companion* OR "close relationship*" OR "social routine" OR reciprocity

### *G. Adolygu*

Review OR synthesis OR meta-analysis OR scoping OR mapping

A + (B neu C) + D + (E neu F) + G

# Cronfeydd data

1. PsycINFO
2. MEDLINE
3. CINAHL
4. Social Policy and Practice (yn cwmpasu Social Care Online ac Idox)
5. Social Sciences Citation Index
6. Academic Search Complete

# Atodiad B: Gwefannau / sefydliadau a chwiliwyd

| | |
|---|---|
| Ymddiriedolaeth Carnegie UK | www.carnegieuktrust.org.uk |
| Centre for Ageing Better | ageing-better.org.uk |
| Glasgow Centre for Population Health | www.gcph.co.uk |
| Cymdeithas Llywodraeth Leol (LGA) | www.local.gov.uk |
| Local Trust | localtrust.org.uk |
| Locality | locality.org.uk |
| NCVO | www.ncvo.org.uk |
| NESTA | www.nesta.org.uk |
| New Economics Foundation | neweconomics.org |
| New Local | www.newlocal.org.uk |
| People's Health Trust | www.peopleshealthtrust.org.uk |
| Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth | www.scie.org.uk |
| Social Life | www.social-life.co |
| Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru | www.wcpp.org.uk/cy/ |
| What Works Centre for Wellbeing | whatworkswellbeing.org |

# Awduron yr adroddiad

**Mae Anne-Marie Bagnall** yn Athro Tystiolaeth Iechyd a Lles ac yn Gyfarwyddwr y Ganolfan Ymchwil Hybu Iechyd ym Mhrifysgol Leeds Beckett, ac mae ganddi arbenigedd mewn synthesis tystiolaeth, lles cymunedol ac ymgysylltu â'r gymuned.

Mae **Jane South** yn Athro Cymunedau Iach ym Mhrifysgol Leeds Beckett, gydag arbenigedd mewn ymagweddau sy'n canolbwyntio ar y gymuned at iechyd a lles, synthesis tystiolaeth, ac mae'n gyn Gynghorydd Cenedlaethol Cymunedau yn Iechyd Cyhoeddus Lloegr/y Swyddfa Gwella Iechyd a Gwahaniaethau.

Mae **Rebecca Jones** yn Gynorthwyydd Ymchwil yn Ysgol Iechyd Prifysgol Leeds Beckett, gydag arbenigedd mewn synthesis tystiolaeth ar gyfer hybu iechyd.

Mae **Dr Kris Southby** yn Uwch Gymrawd Ymchwil yn y Ganolfan Ymchwil Hybu Iechyd ym Mhrifysgol Leeds Beckett, gydag arbenigedd mewn synthesis tystiolaeth, lles cymunedol a hybu iechyd i bobl ag anableddau.

# Gwybodaeth am Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Yma yn y Ganolfan, rydym yn cydweithio ag arbenigwyr polisi arweiniol i ddarparu tystiolaeth o ansawdd uchel a chyngor annibynnol i weinidogion, y gwasanaeth sifil a gwasanaethau cyhoeddus Cymru, sy'n eu helpu i wella penderfyniadau a chanlyniadau o ran polisi.

Mae'r Ganolfan, a ariennir gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol a Llywodraeth Cymru, wedi'i lleoli ym Mhrifysgol Caerdydd ac yn aelod o Rwydwaith What Works y DU.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Dr Hannah Durrant**

hannah.durrant@wcpp.org.uk



# Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Prifysgol Caerdydd
Sbarc | Spark
Heol Maendy
Caerdydd
CF24 4HQ

www.wcpp.org.uk/cy
029 2087 5345
info@wcpp.org.uk
@WCfPP

UKRI Economic and Social Research Council
Llywodraeth Cymru Welsh Government
Cardiff University Prifysgol Caerdydd